



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales  
(The Official Record)**

**Dydd Mawrth 25 Mehefin 2002**

**Tuesday 25 June 2002**

**Cynnwys**  
**Contents**

- |    |   |
|----|---|
| 3  | Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru<br><i>Questions to the First Minister</i>  |
| 25 | Datganiad ar Dawn Meats Cyf<br><i>Statement on Dawn Meats Ltd</i>   |
| 31 | Datganiad Busnes<br><i>Business Statement</i>   |
| 33 | Datganiad gan y Llywydd<br><i>Statement by the Presiding Officer</i>  |
| 36 | Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion Addysg<br><i>Composite Motion: Approval of Education Orders</i>   |
| 38 | Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus<br><i>Code of Practice on Public Appointments</i>   |
| 60 | Dadl Plaid Leiafrifol (Y Blaid Geidwadol): Difyriad Economaidd yng Nghefn Gwlad Cymru<br><i>Minority Party Debate (Conservative Party): Economic Decline in Rural Wales</i> |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

*In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.*

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.  
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru Questions to the First Minister

### Camddefnyddio Sylweddau Substance Misuse

**Q1 Brian Gibbons:** Has the First Minister had any communication with South Wales Police regarding the problem of substance misuse in Wales? (OAQ18492)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** Correspondence has been received from Dyfed Powys Police and South Wales Police about the spread of heroin and crack cocaine in Wales. I announced last week that the Minister for Finance, Local Government and Communities, Edwina Hart, will combine her responsibilities for local government and communities with responsibility for action on drug and alcohol abuse. This will ensure that greater priority is given to Assembly Government responsibilities for crime reduction and safer communities. Arrangements are in hand for a meeting between Edwina, me and the four Welsh chief constables.

**Brian Gibbons:** I have had a number of reports of the increased availability of many hard drugs in my constituency. However, thankfully, the increased levels of criminality and social dysfunction usually associated with this problem have not yet emerged. Do you think it would be appropriate to consider, perhaps in conjunction with the Secretary of State for Wales, calling an all-Wales conference to examine this problem, with a view to trying to head off the more serious problems highlighted by the assistant chief constable of South Wales Police?

**The First Minister:** The idea of an all-Wales conference is promising but perhaps it should not be considered until after Edwina and I have met the four chief constables to discuss the best way forward. I visited Cardiff central police station to discuss this, among other issues, on 14 June. You wrote to me on that day, Brian, about how we should head off the

**C1 Brian Gibbons:** A yw'r Prif Weinidog wedi cynnal unrhyw drafodaethau gyda Heddlu De Cymru ynghylch problem camddefnyddio sylweddau yng Nghymru? (OAQ18492)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Heddlu Dyfed Powys a Heddlu De Cymru ynglŷn â lledaeniad heroin a chocêr crac yng Nghymru. Cyhoeddais yr wythnos diwethaf y bydd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Edwina Hart, yn cyfuno'i chyfrifoldebau dros lywodraeth leol a chymunedau gyda chyfrifoldeb dros weithredu ar y camddefnydd o gyffuriau ac alcohol. Bydd hyn yn sicrhau y rhoddir mwy o flaenoriaeth i gyfrifoldebau Llywodraeth y Cynulliad dros leihau torcyfraith a diogelu cymunedau. Mae trefniadau mewn llaw ar gyfer cyfarfod rhwng Edwina a minnau a phedwar prif gwnstabl Cymru.

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi clywed bod mwy o gyffuriau caled ar gael yn fy etholaeth. Fodd bynnag, diolch i'r drefn, nid yw'r lefelau uwch o dorcyfraith a thrafferthion cymdeithasol a gysylltir fel arfer â'r broblem hon wedi dod i'r wyneb eto. A ydych yn meddwl y byddai'n briodol ystyried, ar y cyd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru efallai, cynnal cynhadledd Cymru gyfan i ystyried y broblem hon, gyda'r nod o geisio achub y blaen ar y problemau mwy difrifol a amlygwyd gan brif gwnstabl cynorthwyol Heddlu De Cymru?

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r syniad o gynhadledd Cymru gyfan yn un addawol ond efallai na ddylid ei ystyried hyd nes bydd Edwina a mi wedi cyfarfod â'r pedwar prif gwnstabl i draffod y ffordd orau ymlaen. Euthum i swyddfa heddlu ganolog Caerdydd i draffod hyn, ymhlið materion eraill, ar 14 Mehefin. Bu ichi ysgrifennu ataf ar y

problem before it becomes serious. That is the right way to approach this situation. I understand that the problem is serious in Bristol, which is not far away, and in Liverpool, which is not far from north Wales. It is important that the problem is headed off before it becomes as serious in Wales.

diwrnod hwnnw, Brian, ynghylch sut y dylem ymdrin â'r broblem cyn iddi fynd yn ddifrifol. Dyna'r ffordd gywir i ddelio â'r sefyllfa hon. Deallaf fod y broblem yn ddifrifol ym Mryste, sydd nid nepell i ffwrdd, ac yn Lerpwl, nad yw ymhell o'r Gogledd. Mae'n bwysig rhwystro'r broblem cyn iddi ddatblygu i fod yr un mor ddifrifol yng Nghymru.

**Geraint Davies:** I declare an interest as a pharmacist. You will be aware of the recent tragic, drugs-related deaths in my constituency. In view of the fact that there is a mortality rate of 10 per cent for addicts waiting for more than a year for drug rehabilitation services, what urgent action is your Government taking to alleviate the horrendous waiting times, often up to 18 months, for such treatment in my constituency?

**The First Minister:** I am grateful to you for raising that point. I raised the issue of the drug deaths in the Rhondda with South Wales Police during my recent visit to Cardiff central police station. The police told me that the picture is complex. I do not remember them raising the issue of waiting times for drug treatment, but that does not mean that it is not a serious issue. If there are specific problems in the Rhondda in terms of the numbers of beds available for drug treatment, I would be grateful if you would write to me. The main burden of Assistant Chief Constable Francis's letter—sent on behalf of the South Wales, Gwent and Dyfed Powys police forces—was that we need much tighter co-ordination between drug and alcohol advisory treatment and policing. That is why I put Edwina in charge of that issue, to fit in with her existing responsibilities.

**Geraint Davies:** Datganaf fuddiant fel fferyllydd. Byddwch yn ymwybodol o'r marwolaethau trasig diweddar a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau yn fy etholaeth i. Yn wyneb y ffaith bod 10 y cant o bobl gaeth i gyffuriau sy'n gorfol aros dros flwyddyn am wasanaethau adsefydlu defnyddwyr cyffuriau yn marw, pa gamau brys y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i liniaru'r amserau aros echrydus, hyd at 18 mis yn aml, am driniaeth o'r fath yn fy etholaeth ?

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn ddiolchgar ichi am godi'r pwynt hwnnw. Codais fater y marwolaethau oherwydd cyffuriau yn y Rhondda gyda Heddlu De Cymru yn ystod fy ymweliad diweddar â swyddfa heddlu ganolog Caerdydd. Dywedodd yr heddlu wrthyf ei fod yn fater cymhleth. Nid wyf yn cofio iddynt sôn am fater amserau aros am driniaeth cyffuriau, ond nid yw hynny'n golygu nad yw'n fater difrifol. Os oes problemau penodol yn y Rhondda o ran y niferoedd o welyau sydd ar gael i drin pobl sy'n gaeth i gyffuriau, byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ysgrifennu ataf. Prif fyrdwn llythyr y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Francis—a anfonwyd ar ran heddluoedd De Cymru, Gwent a Dyfed Powys—oedd fod angen cydgysylltu llawer tynnach rhwng triniaeth a chyngor cyffuriau ac alcohol a phlismona. Dyna pam y rhoddais y cyfrifoldeb am y mater hwnnw i Edwina, i gyd-fynd â'r cyfrifoldebau sydd ganddi eisoes.

**Alun Cairns:** Having spent an evening with officers from South Wales Police in Swansea city centre some weeks ago, I observed the potential for conflict when large numbers of people congregate together. Many substance misuse problems arise from such situations, and the police were keen to present their local answer, which is a scheme called TASSC—tackling alcohol and substance related street

crime in Swansea. Is the First Minister familiar with this scheme, and, if not, will he make plans to discuss the matter with South Wales Police so that we can consider what support we can give, as many of the responsibilities will fall upon local authorities?

**The First Minister:** I shall certainly attempt to familiarise myself with the scheme, although not necessarily in the way you have, Alun—that would be well past my bedtime. The way in which voluntary sector and health sector activities are co-ordinated with the police is important in preventing the problem from getting out of hand, as it has done in the large metropolitan areas of England, including those which are close to Wales, such as Liverpool, Manchester and Bristol. These areas may be a source of cheaper drugs for Wales, which may lead to turf wars and enforcement problems.

**Alison Halford:** Can you comment on the reported suggestion by the chief constable of North Wales Police that part of the police budget should go towards the rehabilitation of drugs offenders?

**The First Minister:** I cannot comment on that because I have not seen it, but if you direct me to where you have seen the comment, I will ensure that either I or Edwina replies with the Assembly Government's view on it.

### **Gwasanaethau Trafnidiaeth rhwng y Gogledd a'r De Transport Services between North and South Wales**

**C2 Dafydd Wigley:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar bryd y bydd y nod o wella gwasanaethau trafnidiaeth rhwng gogledd a de Cymru'n cael ei gyrraedd? (OAQ18497)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae llawer yn digwydd yn y maes hwn; er enghraift, mae'r cytundeb am waith ar yr A470 yng Nghwm Lledr, rhwng Dolwyddelan a Phont-yr-Afanc, ar fin cael ei osod. Mae hwn yn gynllun mawr a fydd yn costio mwy na £10 miliwn. Gobeithiwn gyhoeddi cyn bo hir pa gwmni sydd wedi ennill y cytundeb, a phryd y bydd

o'r enw TASSC, sy'n taclo torcyfraith sy'n gysylltiedig ag alcohol a chanddefnyddio sylweddau ar strydoedd Abertawe. A ydyw'r Prif Weinidog yn gyfarwydd â'r cynllun hwn, ac, os nad ydyw, a wnaiff gynlluniau i drafod y mater gyda Heddlu De Cymru fel y gallwn ystyried pa gefnogaeth y gallwn ni ei rhoi, gan y bydd llawer o'r cyfrifoldebau'n syrthio ar awdurdodau lleol?

**Prif Weinidog Cymru:** Yn sicr fe geisaf ymgynnarwyddo â'r cynllun, er nad o reidrwydd yn y ffordd y gwnaethoch chi, Alun—byddai hynny ymhell ar ôl fy amser gwely i. Mae'r modd y cydlynir gweithgareddau'r sector gwirfoddol a'r sector iechyd gyda'r heddlu'n bwysig i atal y broblem rhag mynd yn rhemp, fel y gwnaeth yn ardaloedd metropolitan mawr Lloegr, gan gynnwys rhai sy'n agos i Gymru, fel Lerwpl, Manceinion a Bryste. Gall yr ardaloedd hyn fod yn ffynhonnell cyffuriau rhatach i Gymru, a all arwain at ryfeloedd rhwng gangiau a phroblemau plismona.

**Alison Halford:** A allwch wneud sylw ar yr awgrym gan brif gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, yn ôl yr adroddiadau, y dylai rhan o gyllideb yr heddlu fynd tuag at adsefydlu troseddwyr cyffuriau?

**Prif Weinidog Cymru:** Ni allaf wneud sylw ar hynny oherwydd nid wyf wedi ei weld, ond os cyfeiriwch fi at y fan lle gwelsoch y sylw, fe wnaif yn siŵr y byddaf fi neu Edwina'n ymateb gan roi barn Llywodraeth y Cynulliad arno.

**Q2 Dafydd Wigley:** Will the Minister make a statement on when the aim for improving transport services between north and south Wales will be achieved? (OAQ18497)

**The First Minister:** There are many developments in this area; for example, the contract for work on the A470 in Lledr Valley, between Dolwyddelan and Beaver Bridge, is about to be awarded. This is a large-scale scheme, costing more than £10 million. An announcement on the successful contractor and when the work will begin—

y gwaith yn dechrau—rywbryd yn ystod yr haf hwn—a bydd y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 2005.

**Dafydd Wigley:** Mae rhoi'r holl sylw i ffyrdd a dim sylw i reilffyrdd yn nodwediadol o'r Llywodraeth hon. Mae'r gwasanaeth rheilffyrdd rhwng Caergybi a Chaerdydd yn echrydus. A ydych yn ymwybodol bod trenau *inter-city* yn rhedeg rhwng Lerpwl a Poole? Os yw'n bosibl cael trenau felly yn rhedeg rhwng dinasoedd o'r fath yn Lloegr, pam nad yw'n bosibl cael trenau o'r un safon yn rhedeg rhwng y Gogledd a Chaerdydd?

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'n ddiddorol bod Dafydd yn dweud, wrth ymateb i'r ateb cyntaf a roddais, fy mod yn anwybyddu ochr arall y ddadl, sef y sector cyhoeddus ar yr achlysur hwn. Pe bawn wedi rhoi ateb ar yr hyn y mae'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn ei wneud i sefydlu masnachfraint Cymru gyfan, byddai wedi gofyn pam fy mod yn anwybyddu'r sector preifat, a'r gwelliannau sydd eu hangen ar yr A470. Ni allaf gynnwys y ddau beth mewn un ateb cryno. Disgwyliwn wybod pa gwmni a fydd wedi ennill masnachfraint Cymru gyfan erbyn Ebrill 2003 a gwelwn ddatblygiadau mewn gwasanaethau cyhoeddus ar y rheilffyrdd yng Nghymru wedi hynny.

**Alun Pugh:** It is good to hear news of the road improvements, but do you accept that only rail offers a cost-effective, safe and environmentally-friendly way of getting people from north Wales to the capital for work or leisure purposes? Do you also accept that the single rail franchise must contain guarantees of frequency and quality on north-south services?

**The First Minister:** I am not familiar with the exact details of the all-Wales franchise that the SRA is currently considering, but we need a balance between road, rail, and bus developments. The road schemes on the A470 will be paralleled by schemes on the Welsh borders and on the A483 between Wrexham and Swansea. There is also the prospect of developments between Pant and Llanymynech. However, I agree that travelling by rail has its benefits, such as the

sometime during this summer—is imminent and the work will be completed by the end of 2005.

**Dafydd Wigley:** It is typical of this Government to focus solely on roads, and ignore the railways. The rail service between Holyhead and Cardiff is appalling. Are you aware that there is an inter-city service between Liverpool and Poole? If it is possible to have these trains running between such cities in England, why is it not possible to have trains of the same standard running between north Wales and Cardiff?

**The First Minister:** It is interesting that, in responding to my first answer, Dafydd accuses me of ignoring the other side of the argument, in this case the public sector. If I had answered on what the Strategic Rail Authority is doing to set up an all-Wales franchise, he would have asked why I was ignoring the private sector and the improvements needed to the A470. I cannot refer to both issues in one concise answer. We expect to know which company will be awarded the all-Wales franchise by April 2003, and we will then see developments in public railway services in Wales.

**Alun Pugh:** Mae'n dda clywed newyddion am welliannau ffyrdd, ond a dderbyniwch mai dim ond y rheilffyrdd sy'n cynnig ffordd gost-effeithiol, diogel ac amgylcheddol garedig o fynd â phobl o'r Gogledd i'r brifddinas i ddibenion gwaith neu hamdden? A dderbyniwch hefyd fod yn rhaid i'r fasnachfraint rheilffyrdd sengl gynnwys gwarantau amlder ac ansawdd ar wasanaethau de-gogledd?

**Prif Weinidog Cymru:** Nid wyf yn gyfarwydd ag union fanylion y fasnachfraint i Gymru gyfan y mae'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn ei hystyried ar hyn o bryd, ond mae angen cydwysedd rhwng datblygiadau ffyrdd, rheilffyrdd a bysus. Ochr yn ochr â'r cynlluniau ffyrdd ar yr A470 ceir cynlluniau ar y gororau ac ar yr A483 rhwng Wrecsam ac Abertawe. Mae rhagolygon hefyd ar gyfer datblygiadau rhwng Pant a Llanymynech. Fodd bynnag, cytunaf fod manteision i

option to work on the train, which you cannot do if you are driving a car.

**Eleanor Burnham:** A ydych yn cytuno ei bod yn hanfodol inni sicrhau bod yr SRA yn trin gogledd Cymru yn deg, gan ariannu'r gwasanaeth yn well, yn enwedig y gwasanaeth rhwng Wrecsam a Chaerdydd?

2:10 p.m.

**Prif Weinidog Cymru:** Yr ydym yn siarad am fwy na'r gwasanaeth rhwng Caergybi a Chaerdydd yn unig. Un o'r problemau ynglŷn â'r system reilffyrdd yng Nghymru yw nad yw'r gwasanaeth o Gaergybi yn teithio drwy Wrecsam; yn hytrach, mae'n mynd drwy Gaer. Mae'r gwasanaeth sy'n osgoi Wrecsam yn teithio tuag at Crewe, Manceinion neu Lerpwl. Felly, mae anghysondeb yn y system yr ydym wedi ei hetifeddu.

**The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne):** I refer you to the jam in the sandwich caught in the middle between north and south Wales. Without wanting to decry the importance of rail services, much of mid Wales is not served by trains at all. What is the Government of Wales doing to implement the Babtie report recommendations on the need for bypasses for Rhayader, Builth Wells, Llanrwst and Newtown?

**The First Minister:** With regard to the schemes that I have cited on the north-south route through mid Wales, the Pant and Llanymynech bypass is either in or close to mid Wales; it covers parts of Shropshire where the English-Welsh border tends to yo-yo back and forth even though the road is straight and where the Severn valley merges into the area around Oswestry. The Talgarth relief road, also in mid Wales, is another early scheme, and we expect this work on the A479 to start in the next three years. That relief road will also benefit those travelling through mid Wales.

deithio ar drenau, fel y dewis i weithio ar y trêñ, rhywbeth nad yw'n bosibl os ydych yn gyrru car.

**Eleanor Burnham:** Do you agree that we must ensure that the SRA deals equitably with north Wales by increasing funding, especially for services between Wrexham and Cardiff?

**The First Minister:** We are talking about more than just the service between Holyhead and Cardiff. One problem regarding the rail system in Wales is that the service from Holyhead does not travel through Wrexham; it goes through Chester instead. The service that bypasses Wrexham travels towards Crewe, Manchester or Liverpool. Therefore, there are inconsistencies in the system that we have inherited.

**Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne):** Cyfeiriaf at y jam yn y frechdan sydd yn y canol rhwng de a gogledd Cymru. Heb ddymuno bychanu pwysigrwydd gwasanaethau rheilffyrdd, ni wasanaethir rhannau helaeth o'r Canolbarth gan drenau o gwbl. Beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i weithredu argymhellion adroddiad Babtie ar yr angen am ffyrdd osgoi i Raeadr Gwy, Llanfair ym Muallt, Llanrwst a'r Drenewydd?

**Prif Weinidog Cymru:** O ran y cynlluniau a enwais ar y ffordd o'r de i'r gogledd drwy'r Canolbarth, mae ffordd osgoi Pant a Llanymynech naill ai yn y Canolbarth neu'n agos ato; aiff drwy rannau o Swydd Amwythig lle tuedda'r ffin rhwng Cymru a Lloegr i bendilio'n ôl a blaen er bod y ffordd yn syth a lle ymuna dyffryn Hafren ag ardal Croesoswallt. Mae ffordd liniaru Talgarth, eto yn y Canolbarth, yn gynllun arall a ddaw'n fuan, a disgwyliwn i'r gwaith hwn ar yr A479 gychwyn o fewn y tair blynedd nesaf. Bydd y ffordd liniaru honno hefyd o fantais i rai sy'n teithio drwy'r Canolbarth.

### Economi Sir Benfro Economy of Pembrokeshire

**C3 Cynog Dafis:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cael gyda'r

**Q3 Cynog Dafis:** What discussions has the First Minister had with the Minister for

Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ynghylch cryfau economi Sir Benfro? (OAQ18495)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn cael cyfarfodydd rheolaidd â'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i drafod amrywiaeth o faterion yn ymwneud â datblygu economaidd yng Nghymru, gan gynnwys economi Sir Benfro.

**Cynog Dafis:** Beth yw'r sefyllfa bresennol o ran denu cwmnïau newydd i'r ganolfan alwadau yn Noc Penfro? Yr oedd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn hyderus ynglŷn â'r sefyllfa yn ei ddatganiad yn y Siambra, a dywedodd y cai'r broblem ei datrys. Ei eiriau oedd:

'We have done it once and we will do it again.'

A wnewch ymchwilio i'r honiadau bod o leiaf un cwmni wedi cefnu ar y cyfle i ddefnyddio'r ganolfan alwadau oherwydd bod y ffi yr oedd Manpower yn ei chodi'n rhy uchel? A wnewch chi neu Andrew Davies ystyried beth y gallwch ei wneud i helpu gyda'r sefyllfa hon?

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn parhau i fod yn dawel hyderus y gallwn ganfod cwmni arall i gymryd lle ITV Digital ar y safle yn Noc Penfro lle mae gan Manpower y contract o ran y staff a 7C y contract o ran materion technegol. Nid ydym wedi llwyddo eto i greu 1,000 o swyddi er ein bod wedi sicrhau 200 o swyddi dros dro lle y caiff y gwaith ei wneud gan Manpower a 7C ar ran NTL. Ni chlywais yr honiad ynglŷn â chwmni yn troi ei gefn ar Sir Benfro. Yr wyf yn siŵr y gwelwn sawl esiampl o hynny cyn inni lwyddo yn y pen draw.

**Richard Edwards:** You will be aware of the wonderful last invasion tapestry in Fishguard. Will you support the bid to establish a permanent centre to exhibit this national treasure, which is a glorious example of community art and enterprise?

**The First Minister:** I agree with your last point. I have seen the tapestry so many times I sometimes feel that I sewed it myself. I pay

Economic Development regarding boosting the economy of Pembrokeshire? (OAQ18495)

**The First Minister:** I regularly meet with the Minister for Economic Development to discuss a range of issues relating to economic development in Wales, including the economy of Pembrokeshire.

**Cynog Dafis:** What is the current situation regarding attracting new companies to the call centre at Pembroke Dock? The Minister for Economic Development was confident about the situation in his statement to the Chamber, and said that the problem would be resolved. He said:

'Gwnaethom hynny unwaith ac fe'i gwnawn eto.'

Will you investigate the allegation that at least one company has turned its back on the opportunity to use the call centre because the fee charged by Manpower was too high? Will you or Andrew Davies consider what you can do to help with this situation?

**The First Minister:** I am still quietly confident that we can find another company to take over from ITV Digital on the Pembroke Dock site where Manpower has the contract with regard to staff and 7C has the contract with regard to technical issues. We have not yet succeeded in creating 1,000 jobs, although we have secured 200 temporary jobs where the work is carried out by Manpower and 7C on behalf of NTL. I have not heard the allegation that a company has turned its back on Pembrokeshire. I am sure that we will see several examples of that before we finally succeed.

**Richard Edwards:** Mae'n siŵr y gwyddoch am dapestri bendigedig yr ymosodiad olaf yn Abergwaun. A wnewch chi gefnogi cais i sefydlu canolfan barhaol i arddangos y trysor cenedlaethol hwn, sy'n enghraift odidog o gelfyddyd a menter gymunedol?

**Prif Weinidog Cymru:** Cytunaf â'ch pwynt olaf. Yr wyf wedi gweld y tapestri gymaint o weithiau nes y teimlaf weithiau fy mod

tribute to the women of the area whose efforts produced such an incredible memorial to the period of the last invasion in 1797. It is a wonderful piece of work. It is unfortunate that it is temporarily in storage, until it finds a permanent home. I am not aware of the current state of negotiations, but I will get the latest information and write to you about it.

**Christine Gwyther:** The company I believe that Cynog Dafis was referring to has turned its back on Manpower, but not on Pembroke Dock, and is seeking alternative accommodation. I hope that your Ministers will give the company every opportunity and assistance in this regard. Education and Learning Wales has created a scheme whereby the ex-workers at the Cleddau Bridge call centre can enhance their skills before returning to work at the centre.

The Department of Trade and Industry is currently considering the state aid regulations in this respect, and I understand that we are breaking new ground with this whole project. However, will you use your good offices to bring about a speedy resolution to the state aid issue, to get those people who need those jobs so much, upskilled and back into work?

**The First Minister:** You are correct: call centres come in all shapes and sizes and different kinds of call centres require different training before the jobs can be accessed. They sometimes deal with outgoing calls, which require cold selling using the telephone directory. That is a basic grade call centre. There are others where high net worth individuals give financial advice. One might be on the phone for an hour, on incoming calls. That calls for different training requirements. I am aware of ELWa's problems with regard to state aid for its employer recruitment subsidy. The DTI will advise on that. I will come back to you when that problem is resolved—it will hopefully be soon.

wedi'i bwytho fy hun. Talaf deyrnged i fenywod yr ardal a gynhyrchedd drwy eu hymdrehchion gofeb mor anhygoel i gyfnod yr ymosodiad olaf yn 1797. Mae'n waith bendigedig. Mae'n anffodus ei fod mewn stordy dros dro, hyd nes ceir cartref parhaol iddo. Nid wyf yn ymwybodol o hynt y negodi, ond fe gaf y wybodaeth ddiweddaraf ac ysgrifennu atoch amdani.

**Christine Gwyther:** Mae'r cwmni y credaf yr oedd Cynog Dafis yn cyfeirio ato wedi troi ei gefn ar Manpower, ond nid ar Ddoc Penfro, ac mae'n chwilio am safle arall. Gobeithiaf y gwnaiff eich Gweinidogion roi pob cyfle a chymorth i'r cwmni yn hyn o beth. Mae Dysgu ac Addysgu Cymru wedi creu cynllun i gyn-weithwyr canolfan alwadau Pont Cleddau wella'u sgiliau cyn dychwelyd i weithio yn y ganolfan.

Mae'r Adran Masnach a Diwydiant ar hyn o bryd yn ystyried y rheoliadau cymorth gwladrwaethol yn hyn o beth, a deallaf ein bod yn torri tir newydd gyda'r prosiect hwn yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, a wnewch chi ddefnyddio'ch sefyllfa i sicrhau datrysiaid buan i gwestiwn cymorth gwladrwaethol, er mwyn sicrhau y caiff y bobl hynny, sydd angen y swyddi hynny gymaint, ddiweddar eu sgiliau ac ailfael mewn gwaith?

**Prif Weinidog Cymru:** Yr ydych yn iawn: ceir canolfannau galwadau o bob lliw a llun ac mae gwahanol ganolfannau'n galw am wahanol hyfforddiant cyn y gellir cael swyddi ynddynt. Mewn rhai canolfannau bydd staff yn gwneud galwadau, sy'n galw am werthu drwy ddewis enwau ar hap o'r llyfr ffôn. Canolfan alwadau gradd sylfaenol yw honno. Ceir eraill lle bydd unigolion â gwerth net uchel yn rhoi cyngor ariannol. Gellid bod ar y ffôn am awr, yn delio â galwadau i'r ganolfan. Mae hynny'n galw am hyfforddiant gwahanol. Yr wyf yn ymwybodol o broblemau ELWa ynghylch cymorth gwladrwaethol ar gyfer ei gymhorthdal reciwtio i gyflogwyr. Cawn gyngor gan yr Adran Masnach a Diwydiant ar hynny. Deuaf yn ôl atoch pan fydd y broblem honno wedi'i datrys—a hynny'n fuan, gobeithio.

## Cysylltiadau Trafnidiaeth yng Nghymoedd y De Transport Links in the South Wales Valleys

**C4 Geraint Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar wella cysylltiadau trafnidiaeth yng Nghymoedd y De i hybu eu datblygiad economaidd? (OAQ18492)

Datganaf fuddiant fel aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

**Prif Weinidog Cymru:** Oherwydd ymateb Dafydd i fy ateb cynharach, mae'n well imi sicrhau fy mod yn cadw cydbwysedd rhwng trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat. O ran yr ochr breifat a ffyrdd newydd, disgwyliwn i waith ddechrau o ddifrif cyn bo hir ar y darn cyntaf o'r prosiect enfawr i wneud ffordd blaenau'r Cymoedd—sef y darn o Ddowlais hyd at Dredegar—yn ffordd ddeuol, yn hytrach na ffordd tair lôn. Yn ogystal, mae prosiect enfawr arall ar y gweill i gael gwared ar y tagfeydd i'r gogledd o or saf drenau Stryd y Frenhines yng Nghaerdydd. Bydd hynny'n rhoi gwell cyswllt ar y rheilffordd rhwng cymoedd Rhymni, Rhondda, Taf a Chynon a chanol Caerdydd.

**Geraint Davies:** A gytunwch fod y stiwdios ffilm arfaethedig ym Mhont-y-clun, sydd â photensial am 2,000 o swyddi, yn brosiect cyffrous? A ydych yn difaru bod cyfarwyddyd diweddar gan y Cynulliad i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer ffordd gyswllt i'r stiwdios yn gosod marc cwestiwn difrifol dros yr holl gynllun? A wnewch roi ymrwymiad y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud ei gorau i sicrhau y bydd y cynllun yn cael ei wireddu?

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r ymrwymiad yn bodoli eisoes, Geraint. Ni fyddwn yn rhoi'r gorau i'r prosiect hwn. Yr ydym yn gwneud ein gorau i geisio datrys y problemau sydd wedi codi ynglŷn â'r ffordd gyswllt. Yr ydym yn parhau i drafod y sefyllfa gyda'r awdurdodau lleol a'r cwmni.

**Peter Law:** Your commitment to re-opening the passenger rail service between Cardiff and Ebbw Vale is to be commended, and the Minister for Environment has worked hard on this project. Unfortunately, the economic regeneration of the area will be deterred to

**Q4 Geraint Davies:** Will the First Minister make a statement on improving transport links in the South Wales Valleys to aid economic development? (OAQ18492)

I declare an interest as a member of Rhondda Cynon Taff County Borough Council.

**The First Minister:** Given Dafydd's response to my earlier question, I shall endeavour to keep a balance between public and private transport. On the private side and new roads, we expect work to start in earnest on the first phase of the enormous project to make the heads of the Valleys road—between Dowlais and Tredegar—a dual carriageway rather than a three lane road. In addition, work is being done on another enormous project to get rid of the bottleneck to the north of Queen Street rail station in Cardiff. That will ensure a better rail link between the Rhymney, Rhondda, Taf and Cynon valleys and the centre of Cardiff.

**Geraint Davies:** Do you agree that the proposed film studios in Pontyclun, which could attract 2,000 jobs, is an exciting project? Do you regret that recent guidance given by the Assembly to refuse planning permission for a link road to the studio places a serious question mark over the future of this project? Will you give a commitment that the Assembly Government will do its best to ensure that this scheme goes ahead?

**The First Minister:** The commitment already exists, Geraint. We will not give up on this project. We are doing our best to try to solve the problems that have arisen with regard to the link road. We continue to discuss the situation with the local authorities and with the company.

**Peter Law:** Mae'ch ymrwymiad i ailagor y gwasanaeth trêñ i deithwyr rhwng Caerdydd a Glynebw y i'w gymeradwyo, ac mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd wedi gweithio'n galed ar y prosiect hwn. Yn anffodus, rhwystrir adfywiad economaidd yr

some extent by the fact that there is no access available into Newport station because of a signalling problem, which, according to Railtrack, cannot be resolved until 2009. Will you take steps to ensure that the UK Minister for Transport intervenes in this, and ask him to bring pressure on Railtrack to open that line?

**The First Minister:** Railtrack has other problems at present; it needs to come out of administration before you know who you are dealing with. Allegedly, that problem will be solved this week, but we must wait and see if that happens. We can then start to make serious approaches to Railtrack to see if we can solve the problem as regards the signal box covering that section from Ebbw junction to Newport central station. It is barely credible that it may take seven years to resolve that problem.

**William Graham:** Will you confirm that the requirements for the M4 relief road and the uncertainty over the Sirhowy enterprise way, impair the economic development of our valley communities in south-east Wales?

2:20 p.m.

**The First Minister:** It is always possible to ask for a greater investment in road schemes. We know that Newport, and the Brynglas tunnels in particular, is a potential bottleneck for economic investment west of the river Usk. It is important that that problem is resolved.

However, we must also investigate methods of trying to disconnect economic growth from an increase in traffic on motorways. Everyone is searching for this holy grail. At the moment, economic growth means an increase of 2 per cent per year in road traffic. Ideally, we want economic growth without increased traffic. That is part of our search for more sustainable economic development. Successive Governments have sought the answer, but have not yet found it.

**Christine Chapman:** Do you agree that improving the cross Valleys transport network is vital to the development of

ardal i ryw raddau gan y ffaith nad oes mynediad ar gael i mewn i orsaif Casnewydd oherwydd problem gyda'r signalau, na ellir ei datrys, yn ôl Railtrack, tan 2009. A wnewch chi gymryd camau i sicrhau bod Gweinidog Trafnidiaeth y DU yn ymyrryd yn hyn, a gofyn iddo ddwyn pwysau ar Railtrack i agor y lein honno?

**Prif Weinidog Cymru:** Mae gan Railtrack broblemau eraill ar hyn o bryd; mae angen iddo ddod allan o weinyddiaeth cyn ichi wybod â pwy yr ydych yn delio. Yn ôl y sôn, caiff y broblem honno ei datrys yr wythnos hon, ond bydd rhaid inni aros i weld a ddigwydd hynny. Wedyn gallwn ddechrau cyfathrebu o ddifrif â Railtrack i weld a allwn ddatrys y broblem gyda'r blwch signalau ar gyfer y darn lein o gyffordd Ebwy i orsaif ganolog Casnewydd. Anodd credu y gall gymryd saith mlynedd i ddatrys y broblem honno.

**William Graham:** A wnewch chi gadarnhau bod y gofynion ar gyfer ffordd liniaru'r M4 a'r ansicrwydd dros ffورد fenter Sirhywi yn amharu ar ddatblygiad economaidd ein cymunedau yng nghymoedd y de-ddwyrain?

**Prif Weinidog Cymru:** Mae bob amser yn bosibl gofyn am fwy o fuddsoddiad mewn cynlluniau ffyrdd. Gwyddom fod Casnewydd, a thwneli Brynglas yn arbennig, yn rhwystr possibl i fuddsoddiad economaidd i'r gorllewin o afon Wysg. Mae'n bwysig datrys y broblem honno.

Fodd bynnag, rhaid inni ymchwilio hefyd i ddulliau o geisio datgysylltu twf economaidd oddi wrth gynnydd mewn traffig ar draffyrdd. Mae pawb yn chwilio am y grell sanctaidd hwn. Ar hyn o bryd, golyga twf economaidd gynnydd o 2 y cant y flwyddyn mewn traffig ar y ffyrdd. Yn ddelfrydol, hoffem weld twf economaidd heb gynnydd mewn traffig. Dyna ran o'n hymchwil am ddatblygu economaidd mwy cynaliadwy. Mae Llywodraeth ar ôl Llywodraeth wedi ceisio'r ateb, ond heb ei gael eto.

**Christine Chapman:** A gytunwch fod gwella'r rhwydwaith trafnidiaeth ar draws y Cymoedd yn hanfodol i ddatblygiad

tourism in the Valleys, as it can open up access to some of the best facilities and attractions in Wales? If we are maximise the opportunities, we must raise awareness of the beautiful scenery, the mountain trails and other destinations, which are currently difficult to access or are poorly signposted.

**The First Minister:** You are right in that we are not only talking about the industrial heritage trail from Blaenafon to Hirwaun and further west, but also about potential tourist attractions such as the project in the upper Afan valley. Securing a viable tourist trade in the Valleys, based on these attractions or a series of smaller attractions that link together to form a trail, would diversify the Valleys' economy. It would take the Valleys back to what they were before their over hasty industrialisation 200 years ago, when they were, without doubt, among the outstanding beauty spots of the United Kingdom.

**The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones):** From your comments on transport this afternoon, you obviously agree that improving transport links is essential to regenerate the economy of the south Wales Valleys. However, I return to Eleanor Burnham's question about the Strategic Rail Authority's attitude to improvements in rail infrastructure within Wales and to railways that serve Wales. Will you undertake to speak to the SRA on behalf of the people of Wales and ask it to readdress its investment priorities to ensure that Wales benefits from future investment?

**The First Minister:** Sue Essex and I have met Richard Bowker, the chair of the Strategic Rail Authority, and impressed upon him the importance of investing in railways in Wales from the point of view of sustainable development, public transport and addressing pressure points. For example, there is the bottleneck to the north of Queen Street station on the Valleys line into Cardiff, and there are problems with the Wrexham, Chester, Crewe and Flint quadrangle where the railway lines are inconveniently laid out—those lines were laid out 100 years ago and it is difficult to deal with that now.

twristiaeth yn y Cymoedd, gan y gall agor mynediad i rai o gyfleusterau ac atyniadau gorau Cymru? Os ydym am wneud y mwyaf o'r cyfleoedd, rhaid inni godi ymwybyddiaeth o'r golygfeydd hardd, y llwybrau mynyddig a chyrchfannau eraill, sydd ar hyn o bryd yn anodd mynd atynt neu heb arwyddion da iddynt.

**Prif Weinidog Cymru:** Yr ydych yn iawn o ran ein bod yn sôn nid yn unig am y llwybr treftadaeth ddiwydiannol o Flaenafon i Hirwaun ac ymhellach i'r gorllewin, ond hefyd am atyniadau posibl i ymwelwyr fel y prosiect yng nghwm Afan uchaf. Byddai sicrhau diwydiant ymwelwyr hyfyw yn y Cymoedd, yn seiliedig ar yr atyniadau hyn neu gyfres o atyniadau llai sy'n cydgysylltu i ffurfio taith, yn arallgyfeirio economi'r Cymoedd. Byddai'n mynd â'r Cymoedd yn ôl i'r hyn oeddent cyn y diwydiannu gorfrysio 200 mlynedd yn ôl, pan oeddent, heb os, yn un o lecynnau prydferthaf y Deyrnas Unedig.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones):** O'ch sylwadau ar drafnidiaeth y prynhawn yma, mae'n amlwg eich bod yn cytuno bod gwella cysylltiadau trafnidiaeth yn hanfodol i adfywio economi Cymoedd y De. Fodd bynnag, dof yn ôl at gwestiwn Eleanor Burnham am agwedd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol at welliannau i'r isadeiledd rheilffyrdd yng Nghymru ac i reilffyrdd sy'n gwasanaethu Cymru. A wnewch chi ymgymryd i siarad â'r awdurdod ar ran pobl Cymru a gofyn iddo ailedrych ar ei flaenoriaethau buddsoddi i sicrhau bod Cymru'n elwa oddi wrth fuddsoddi yn y dyfodol?

**Prif Weinidog Cymru:** Mae Sue Essex a mi wedi cyfarfod â Richard Bowker, cadeirydd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, ac wedi pwysgo arno mor bwysig yw buddsoddi mewn rheilffyrdd yng Nghymru o safbwyt datblygu cynaliadwy, cludiant cyhoeddus a lliniaru pwyntiau gwasgedd. Er enghraift, ceir tagfa i'r gogledd o orsaf Heol y Frenhines ar lein y Cymoedd i mewn i Gaerdydd, ac mae problemau gyda phedrongl Wrecsam, Caer, Crewe a'r Fflint lle mae'r rheilffyrdd wedi'u gosod yn anghyfleus—gosodwyd y rheilffyrdd hynny 100 mlynedd yn ôl ac mae'n anodd gwneud dim am

However, we impressed a range of problems on Richard Bowker, not long after his appointment as chair of the SRA. We shall continue to press him on those matters.

**Ieuan Wyn Jones:** I am pleased that you will have further meetings with Richard Bowker. However, the status of Railtrack also affects the future of the railways in Wales. You may be aware of the announcement today by the National Union of Rail, Maritime and Transport Workers that it is slashing its contribution to the Labour Party because of the party's failure to recommit itself to renationalisation. Are you in favour of renationalisation?

**The First Minister:** The important announcement that we are hoping for this week is on when Railtrack is to come out of administration and become Network Rail. We will then have a body that we can deal with and to which we can put questions. The Government in London, which is still responsible for railway administration, will then have a body with which to discuss its investment plans. We should concentrate on those key points, because the people of Wales are concerned about whether they will have a better railway service, with more stations and more trains, which are more reliable and cleaner, not about the major ideological issues that you would like to wander off onto discussing, Ieuan.

hynny'n awr. Fodd bynnag, bu inni bwysleisio nifer o broblemau wrth Richard Bowker, yn fuan wedi iddo gael ei benodi'n gadeirydd yr awdurdod. Byddwn yn parhau i bwysio arno ynghylch y materion hyn.

**Ieuan Wyn Jones:** Yr wyf yn falch y byddwch yn cael cyfarfodydd pellach gyda Richard Bowker. Fodd bynnag, mae statws Railtrack hefyd yn effeithio ar ddyfodol y rheilffyrdd yng Nghymru. Efallai eich bod yn ymwybodol o'r cyhoeddiad heddiw gan Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Môr a Thrafnidiaeth ei fod yn cwtogi ei gyfraniad i goffrau'r Blaid Lafur oherwydd methiant y blaid i ailymrwymo i ailwladoli. A ydych chi o blaid ailwladoli?

**Prif Weinidog Cymru:** Y cyhoeddiad pwysig yr ydym yn gobeithio'i glywed yr wythnos hon yw pa bryd y bydd Railtrack yn dod allan o weinyddiad ac yn troi'n Network Rail. Wedyn bydd gennym gorff y gallwn ddelio ag ef ac y gallwn ei holi. Wedyn bydd gan y Llywodraeth yn Llundain, sydd yn dal i fod yn gyfrifol am weinyddu'r rheilffyrdd, gorff i drafod ei chynlluniau buddsoddi ag ef. Dylem ganolbwytio ar y pwyntiau allweddol hynny, oherwydd yr hyn sy'n poeni pobl Cymru yw a fydd ganddynt well gwasanaeth rheilffyrdd, gyda mwy o orsafoedd a mwy o drenau, a'r rheini'n fwy dibynadwy ac yn lanach, ac nid y cwestiynau ideolegol mawr yr hoffech chi grwydro i'w trafod, Ieuan.

### Statws Caerdydd The Status of Cardiff

**C5 Owen John Thomas:** Pa gamau sydd gan y Prif Weinidog mewn golwg er mwyn hyrwyddo statws Caerdydd? (OAQ18477)

**Prif Weinidog Cymru:** Manteisiaf ar bob cyfle i godi proffil Cymru yma a thramor; mae hyn yn naturiol yn adlewyrchu ar Gaerdydd fel y brifddinas. Mae 11 y cant o boblogaeth Cymru yn byw yng Nghaerdydd. Mae'n bwysig codi proffil Caerdydd ond mae hefyd yn bwysig cofio am yr 89 y cant o bobl Cymru nad ydynt yn byw yng Nghaerdydd.

**Owen John Thomas:** O ran tynnu sylw at ddinas a rhoi statws iddi, nid oes amheuaeth fod perfformiad ei thîm pêl-droed yn bwysig.

**Q5 Owen John Thomas:** What plans does the First Minister have to promote the status of Cardiff? (OAQ18477)

**The First Minister:** I take every opportunity to raise Wales's profile here and abroad; that naturally reflects on Cardiff as its capital city. Eleven per cent of Wales's population lives in Cardiff. It is important to raise Cardiff's profile but you must bear in mind the 89 per cent of Welsh people who do not live in Cardiff.

**Owen John Thomas:** The performance of its football team is undoubtedly important in raising a city's profile and giving it status.

Byddai dyrchafiad Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd i'r brif gynghrair o les i bêl-droed drwy Gymru gyfan. A oes rhywbeth y gall Llywodraeth y Cynulliad ei wneud i hybu ymdrechion Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd?

**Prif Weinidog Cymru:** Mae gan Brif Weinidog y Cynulliad lawer o bwerau, ond mae arnaf ofn nad yw rhoi'r bêl yn y rhwyd ar ran Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, neu unrhyw glwb pêl-droed arall, yn eu plith. Mater pwysig arall yw'r ymgyrch i ennill statws Prifddinas Diwylliant Ewrop i Gaerdydd yn 2008. Edrychwn ymlaen at gyfarfod â Jeremy Isaacs, cadeirydd y pwylgor ymgynghorol, a fydd yn dod i Gaerdydd i gyfarfod y bobl berthnasol, gan gynnwys Jenny Randerson a minnau, yr wyf yn gobeithio, ar 10 Gorffennaf.

**John Griffiths:** To continue the sporting theme, do you agree that yesterday's Wales versus England cricket international further reinforced Cardiff's status as a prestige sporting venue? Do you also agree that the provision of such cricket lessons by Wales to England should become regular fixtures?

**The First Minister:** I was at the game for the first 45 minutes. Wales played brilliantly and continued to do so throughout the day, resulting in a thunderous eight-wicket victory. I had thought that Ieuan Wyn Jones would change Plaid Cymru's policy of seeking independence to seeking full test-match status for Wales, but he has not caught up with that yet. It was important as a bit of a showcase for a Welsh cricket team. I do not know yet what the long-term consequences are for the United Kingdom's cricket culture. Welsh players have, in general, played for England, as have Scottish players—though they are much rarer in the England team. Robert Croft put it well when he said that, when he played for Glamorgan, he considered himself to be playing for Wales, and when he played for England, he considered it to be the equivalent of being selected for the British Lions team. I think that we would all say 'amen' to that.

**David Melding:** To turn the clock back, do you agree that Cardiff ought to be promoted as one of the world's great centres of

Cardiff City Football Club's promotion to the premiership would benefit football throughout Wales. Is there anything that the Assembly Government can do to boost Cardiff City Football Club's efforts?

**The First Minister:** The Assembly First Minister has many powers, but I am afraid that putting the ball into the back of the net on behalf of Cardiff City Football Club, or any other football club, is not among them. Another important matter is the campaign to win Cultural Capital of Europe status for Cardiff in 2008. We look forward to meeting Jeremy Isaacs, the chairman of the advisory committee, who will come to Cardiff to meet the relevant people, including, I hope, Jenny Randerson and myself on 10 July.

**John Griffiths:** I barhau â'r thema chwaraeon, a gytunwch fod y gêm griced ryngwladol ddoe rhwng Cymru a Lloegr wedi atgyfnerthu statws Caerdydd fel canolfan chwaraeon o fri? A gytunwch hefyd y dylai Cymru ddarparu gwersi criced o'r fath yn rheolaidd i Loegr?

**Prif Weinidog Cymru:** Yr oeddwn yn y gêm am y 45 munud cyntaf. Chwaraeodd Cymru'n wych a daliasant ati i wneud hynny drwy'r dydd, gan ennill buddugoliaeth ysgubol o wyth wiced. Yr oeddwn wedi meddwl y byddai Ieuan Wyn Jones yn newid polisi Plaid Cymru o geisio annibyniaeth i geisio statws gemau prawf llawn i Gymru, ond nid yw wedi mynd ar y trywydd hwnnw eto. Yr oedd yn bwysig fel tipyn o arddangosiad o blaid tîm criced i Gymru. Ni wn eto beth yw'r canlyniadau tymor hir i ddiwylliant criced y Deyrnas Unedig. Mae chwaraewyr Cymru, yn gyffredinol, wedi chwarae i Loegr, a chwaraewyr o'r Alban hefyd—er eu bod hwy'n llawer prinnach yn nhîm Lloegr. Rhoddodd Robert Croft ddisgrifiad da o'r sefyllfa wrth ddweud yr ystyriai ei fod, wrth chwarae i Forgannwg, yn chwarae i Gymru, a bod chwarae i Loegr yn gyfystyr â chael eich dewis i chwarae dros dîm Llewod Prydain. Yr wyf yn meddwl y byddem i gyd yn dweud 'amen' i hynny.

**David Melding:** A throi'r cloc yn ôl, a gytunwch y dylid hyrwyddo Caerdydd fel un o ganolfannau mawr y byd o ran

Victorian and Edwardian architecture? It has Burgess house in Park Place, St German's church in Roath—a dreadful name, but an exquisite building—and the incomparable neo-Baroque City Hall. Should we not promote that?

**Andrew Davies:** I agree with you. As I said in my statement, these are serious job losses in an Objective 1 and substantially rural area, which has already suffered problems following the decline in the agriculture sector and in the mining industry. It would not be appropriate for me to say anything further before tomorrow's meeting and until we get more information about the company's intention. Clearly, it is a commercial company and where to locate a production is for the company to decide. We have made offers to assist the company if it wishes to continue the previous level of production at the Crosshands plant. It is up to individual employees to decide whether to take up the offer of a job elsewhere in the UK, which is to be welcomed. However, the Assembly will do all that it can to encourage job creation and retention in Wales, particularly in rural west Wales. These points will be made to the company. I give a commitment that I will keep the Assembly, the Economic Development Committee or the Agriculture and Rural Development Committee—whichever is most appropriate—informed as I already do with the Economic Development Committee when there are major job losses.

**Mick Bates:** We all share your concern about these job losses and your relief that no-one was injured in the fire. A similar situation existed in Montgomeryshire in my constituency whereby many jobs depended on one employer. The task group principle worked extremely well in that case. I endorse

mae swyddi wedi'u colli mewn cymuned Gymraeg, sy'n bygwth mwy o niwed i'r Gymraeg fel iaith gymunedol mewn ardal sydd, fel y mae pawb ohonom yn cydnabod, ar ffin y continwwm ieithyddol. A gytunwch fod hynny'n ei gwneud yn bwysicach byth eich bod chi, eich swyddogion a'r WDA yn archwilio'r posibilrwydd o greu swyddi newydd yn yr ardal i gymryd lle'r rhai a gollir?

Croesawaf sefydlu'r tasglu a llonyfarchaf yr holl asiantaethau cyfrifol am ymateb mor gyflym. Yr wyf yn falch fod cyfarfodydd pellach wedi'u cynllunio. A wnewch chi ymgymryd i ddod ag adroddiadau i'r Cynulliad ar unrhyw ddatblygiadau pellach?

**Andrew Davies:** Yr wyf yn cytuno â chi. Fel y dywedais yn fy natganiad, mae'r rhain yn golledion difrifol mewn ardal Amcan 1 ac ardal wledig i raddau helaeth, sydd eisoes wedi dioddef yn sgil y dirywiad yn y sector amaeth a'r diwydiant glo. Ni fyddai'n briodol imi ddweud dim byd pellach cyn cyfarfod yfory a hyd nes y cawn ragor o wybodaeth am fwriad y cwmni. Yn amlwg, mae'n gwmni masnachol a mater i'r cwmni yw penderfynu ym mhle i leoli'r gwaith cynhyrchu. Yr ydym wedi cynnig cymorth i'r cwmni os dymuna barhau gyda'r lefel flaenorol o gynhyrchu yn ffatri Crosshands. Mater i weithwyr unigol hefyd yw penderfynu a ydynt am dderbyn y cynnig o swydd yn rhywle arall yn y DU, sydd i'w groesawu. Er hynny, fe wna'r Cynulliad bopeth o fewn ei allu i annog cwmnïau i greu a chadw swyddi yng Nghymru, yn enwedig yn y gorllewin gwledig. Gwneir y pwytiau hyn i'r cwmni. Rhoddaf ymrwymiad y sicrhaf y caiff y Cynulliad, y Pwyllgor Datblygu Economaidd neu'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig—pa un bynnag yw'r mwyaf priodol—bob gwybodaeth, fel y gwnaf eisoes gyda'r Pwyllgor Datblygu Economaidd pan gollir nifer fawr o swyddi.

**Mick Bates:** Yr ydym i gyd yn rhannu'ch pryder am y colledion hyn a'ch teimlad o ryddhad na chafodd neb ei anafu yn y tân. Yr oedd sefyllfa debyg yn Sir Drefaldwyn yn fy etholaeth, lle'r oedd llawer o swyddi'n dibynnu ar un cyflogwr. Gweithiodd egwyddor y tasglu yn eithriadol o dda yn yr

it because it saved 200 jobs in Llanidloes. I only hope that it can be as successful with regard to this situation.

I am pleased that there has been considerable support for Dawn Meats Ltd in the past and I hope that the Minister's work will provide support to retain the threatened jobs. However, I am concerned: when companies are supported in this way—in this case an Irish parent company—can we encourage them to use local products, and local meats in particular? I am sure that the Minister is aware of the problems in Wales regarding imported meat and the depression of the home market. Can you take action to encourage the company to use local products that add value to our communities and not producers elsewhere in the world?

**Andrew Davies:** I agree with the thrust of your comments. I thank you for your comments on the success of the taskforce established to help the company affected in Llanidloes. As I said in a short debate led by Janice Gregory some weeks ago, we are trying wherever possible to ensure that companies, such as supermarkets and retail sector companies, purchase their products, such as agriculture goods, in Wales. The WDA, through Source Wales and other schemes, tries to ensure that companies, such as those established by inward investors, source components and supplies through Welsh companies wherever possible. The thrust of our economic development strategy is to ensure that added value is kept in Wales.

**Alun Cairns:** I thank the Minister for his statement and for clarifying a number of points. I underline the relief that we share that no-one was injured or lost their lives in the fire and concur with his comments on the jobs lost. I am concerned, however, that the number of jobs lost is significant because the economy in this part of world is at such a low ebb. If the west Wales economy was more dynamic, the job losses would not have had such a major impact. Mick Bates is right about overdependence on certain employers. What specific plans will the Minister

achos hwnnw. Yr wyf yn ei gymeradwy oherwydd arbedodd 200 o swyddi yn Llanidloes. Gobeithiaf y gall fod yr un mor llwyddiannus yn y sefyllfa hon.

Yr wyf yn falch y bu cefnogaeth sylweddol i Dawn Meats Cyf yn y gorffennol a gobeithiaf y bydd gwaith y Gweinidog yn cynnig cefnogaeth i gadw'r swyddi sydd dan fygythiad. Fodd bynnag, yr wyf yn bryderus: pan gefnogir cwmniau yn y modd yma—rhiant gwmni Gwyddelig yn yr achos hwn—a allwn eu hannog i ddefnyddio cynyrrch lleol, a chigoedd lleol yn arbennig? Yr wyf yn siŵr bod y Gweinidog yn ymwybodol o'r problemau yng Nghymru ynghylch cig wedi'i fewnforio a dirwasgiad y farchnad gartref. A allwch weithredu i annog y cwmni i ddefnyddio cynhyrchion lleol sy'n ychwanegu gwerth i'n cymunedau ac nid cynhyrchwyr o rannau eraill o'r byd?

**Andrew Davies:** Cytunaf ag ergyd eich sylwadau. Diolchaf ichi am eich sylwadau ar lwyddiant y tasglu a sefydlwyd i helpu'r cwmni yr effeithiwyd arno yn Llanidloes. Fel y dywedais mewn dadl fer a arweiniwyd gan Janice Gregory rai wythnosau'n ôl, yr ydym yn ceisio sicrhau, lle bynnag y bo modd, fod cwmniau, megis archfarchnadoedd a chwmniau'r sector manwerthu, yn prynu eu nwyddau, fel cynyrrch amaethyddol, yng Nghymru. Mae'r WDA, drwy Ffynhonnell Cymru a chynlluniau eraill, yn ceisio sicrhau bod cwmniau, megis y rheini a sefydlir gan fuddsoddwyr o wledydd eraill, yn mynd at gwmniau Cymreig am gydrannau a chyflenwadau lle bynnag y bo modd. Bwriad ein strategaeth datblygu economaidd yw sicrhau y cedwir gwerth ychwanegol yng Nghymru.

**Alun Cairns:** Diolchaf i'r Gweinidog am ei ddatganiad ac am egluro nifer o bwyntiau. Pwysleisiaf y rhyddhad a rannwn na chafodd neb ei anafu na'i ladd yn y tân ac ategaf ei sylwadau ar y swyddi a gollwyd. Yr wyf yn bryderus, foddy bynnag, fod y nifer o swyddi a gollir yn arwyddocaol oherwydd fod pethau mor fain ar yr economi yn y rhan hon o'r byd. Pe bai economi gorllewin Cymru'n fwy deinamig, ni chawsai'r colledion effaith mor fawr. Mae Mick Bates yn iawn ynghylch gorddibynnu ar rai cyflogwyr. Pa gynlluniau penodol a gyflwyna'r Gweinidog yn y

introduce in west Wales to make the economy more dynamic?

I am glad that a taskforce is now being set up—the statement announced some of its members. Will the Minister commit to returning to this issue, either at the Economic Development Committee or in a future Plenary session, to highlight the progress of the taskforce? Many taskforces are in operation, but few details are made public. Will the Minister take the opportunity to introduce openness into this decision-making and steering body?

**Andrew Davies:** In my reply to Helen Mary Jones I referred to the fact that this particular part of west Wales has suffered as the result of problems associated with the agriculture sector and job losses in the mining industry. Our strategy aims to ensure that the whole of Wales has a more prosperous and dynamic economy. The west Wales local economy is far more diverse than it was in the past—it is not as prosperous as other parts of Wales, but I do not accept that it is at a low ebb. The unemployment rate is lower than at any time in the last 35 years, and a substantial number of jobs are being created. Nevertheless, there is great scope for taking a sub-regional view of economic development in this area. I have taken up this issue with my officials, Mike King, the executive director of the south-west Wales division of the WDA, local authorities and other agencies. We need to take a more holistic and regional approach to economic development. Our work on economic development issues has been too narrowly focused. I have taken steps to introduce this change.

3:00 p.m.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf innau hefyd yn gwerthfawrogi ymateb mor gyflym i'r sefyllfa hon a'r ffaith bod tasglu wedi'i sefydlu. Edrychaf yn ofalus ar ddatganiad y Gweinidog ynglŷn â chylch gorchwyl y tasglu a chaf yr argraff ei fod wedi rhoi'r gorau i geisio cadw'r swyddi a'i fod yn derbyn eu bod wedi mynd. Derbyniad ein bod yn ymdrin â chwmni masnachol, ond mae'r cwmni hwn yn y gorffennol wedi cael llawer

Gorllewin i wneud yr economi'n fwy deinamig?

Yr wyf yn falch fod tasglu bellach yn cael ei sefydlu—enwyd rhai o'r aelodau yn y datganiad. A wnaiff y Gweinidog ymrwymo i ddychwelyd at y mater hwn, naill yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd neu mewn Cyfarfod Llawn yn y dyfodol, i sôn am gynnydd a wnaed gan y tasglu? Mae llawer o dasgloedd ar waith, ond ychydig o fanylion a gyhoeddir. A wnaiff y Gweinidog fanteisio ar y cyfle i sicrhau bod y corff llywio a gwneud penderfyniadau hwn yn un agored?

**Andrew Davies:** Yn fy ateb i Helen Mary Jones cyfeiriais at y ffaith bod y rhan arbennig hon o orllewin Cymru wedi dioddef yn sgîl problemau cysylltiedig â'r sector amaethyddol a cholledion swyddi yn y diwydiant glo. Ein strategaeth ni yw sicrhau bod gan Gymru gyfan economi mwy ffyniannus a deinamig. Mae economi leol y Gorllewin yn llawer mwy amrywiol nag y bu yn y gorffennol—nid yw mor ffyniannus â rhannau eraill o Gymru, ond nid wyf yn derbyn ei bod yn fain arni. Mae'r gyfradd ddiweithdra'n is nag ar unrhyw adeg yn y 35 mlynedd diwethaf, ac mae nifer sylweddol o swyddi'n cael eu creu. Er hynny, mae lle i gymryd golwg is-ranbarthol ar ddatblygu economaidd yn yr ardal hon. Yr wyf wedi codi'r mater hwn gyda fy swyddogion, Mike King, cyfarwyddwr gweithredol adran de-orllewin Cymru Awdurdod Datblygu Cymru, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill. Mae angen inni ystyried datblygu economaidd mewn modd mwy holistaidd ac yn y cyddestun rhanbarthol. Mae ein gwaith ar faterion datblygu economaidd wedi bod yn rhy gul. Yr wyf wedi cymryd camau i gyflwyno'r newid hwn.

**Rhodri Glyn Thomas:** I also appreciate the swiftness of the response to this situation and the establishment of a taskforce. I am looking carefully at the Minister's statement on the taskforce's remit and I get the impression that he has given up on trying to save the jobs and that he accepts that they are lost. I accept his point that we are dealing with a commercial company but, in the past, this company has been given a great deal of support and

o gefnogaeth, cynhaliaeth a chymorthdaliadau oddi wrth Lywodraeth Cymru a'r asiantaethau sydd yn atebol iddi. A yw'n parhau i roi pwysau ar y cwmni i aros yn Crosshands ac yn pwysleisio'r manteision a ddaw yn sgîl hynny?

Mae'r Gweinidog yn cyfeirio at 183 o swyddi o dan fygythiad, ond a yw'n derbyn bod llawer o gwmniau lleol yn ddibynnol ar Dawn Meats Cyf o ran sicrhau eu proffidioldeb? A fydd y tasglu'n cynorthwyo'r cwmniau hynny hefyd? Os byddwn yn colli'r swyddi yn y pen draw, a wnaiff ymroi i geisio sicrhau bod canolfan brosesu arall yn cael ei sefydlu yn sir Gaerfyrddin? Yr wyf yn siŵr y byddai'n derbyn bod canolfannau o'r fath sy'n prosesu cymaint o gynnrych amaethyddol yn sir Gaerfyrddin yn hollbwysig?

**Andrew Davies:** I have not given up. We will work with the company and make the case for it to retain its previous level of production. However, as I said in my reply to Helen Mary, it is a commercial decision to be made by the company initially, but, where possible, we will make the case to persuade it to stay. I accept your point about the support that the company has received in the past; that argument has already been made to the company and will continue to be made.

As always with major job losses, it is not only a case of the headline figure of people being made redundant, there are also implications for suppliers of components and so on. There are effects downstream. We will take those into account when the taskforce meets, as we have done following other major job losses.

On setting up another processing centre, we would consider that if there were a case for it. We would do everything to encourage that. As ever, with farming and fishing produce, the major economic impact is in terms of the added value of the food processing. Too often in the past we have exported our produce and have not had the added value. We would look at that with the WDA and others to develop a facility, if that proved to be necessary.

funding and numerous subsidies by the Government of Wales and the various agencies accountable to it. Will he continue to put pressure on the company to remain in Crosshands and is he emphasising the benefits of doing so?

The Minister refers to 183 jobs under threat, but does he accept that many local companies are dependent on Dawn Meats Ltd in terms of ensuring their profitability? Will the taskforce also assist those companies? If we ultimately lose these jobs, will he commit to ensuring that another processing centre is established in Carmarthenshire? I am sure that he would accept that such centres that process so much agricultural produce in Carmarthenshire are vitally important?

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi rhoi'r ffidil yn y to. Byddwn yn gweithio gyda'r cwmni ac yn cyflwyno achos iddo dros gadw ei lefel flaenorol o gynhyrchu. Fodd bynnag, fel y dywedais yn fy ateb i Helen Mary, penderfyniad masnachol ydyw, sydd i'w wneud gan y cwmni yn gyntaf, ond, lle bo modd, ceisiwn ei berswadio i aros. Derbyniad eich pwynt am y gefnogaeth a gafodd y cwmni yn y gorffennol; mae'r pwynt hwnnw eisoes wedi ei wneud i'r cwmni a pharheir i'w wneud.

Pan gollir nifer fawr o swyddi, nid yw'n fater o nifer y rhai sy'n colli eu swyddi yn unig; mae goblygiadau hefyd i gyflenwyr cydrannau ac ati. Effeithir ar eraill, felly. Byddwn yn ystyried y rheini pan fydd y tasglu'n cyfarfod, fel y gwnaethom yn y gorffennol pan gollwyd nifer fawr o swyddi.

Ynghylch sefydlu canolfan brosesu arall, byddem yn ystyried hynny pe bai achos drosti, ac fe wnaem bopeth i annog hynny. Fel ag erioed, gyda chynnyrch ffermio a physgota, y prif effaith economaidd yw'r gwerth ychwanegol a ddaw o brosesu bwyd. Yn rhy aml yn y gorffennol yr ydym wedi allforio'n cynnyrch a heb gael y gwerth ychwanegol. Byddem yn edrych ar hynny gyda'r WDA, ac eraill, i ddatblygu cyfleuster, pe gwelid bod hynny'n angenrheidiol.

## Datganiad Busnes Business Statement

**The Minister for Open Government (Carwyn Jones):** There are some changes to this week's business. Jane Hutt's statement on the youth offending strategy will now be made on Thursday 27 June. Today's scheduled motion to approve under Standing Order No. 27 the Youth Support Services Directions (Wales) 2002 has been moved to Tuesday 2 July. On Thursday, with the Llywydd's agreement, I will seek to move a procedural motion that will allow me to bring forward the motion to approve under Standing Order No. 23 the Plant Breeders' Rights (Fees) (Amendment) Regulations 2002. I had to include that at the last minute and I apologise if insufficient notice was given to members of the Business Committee. The Committee agreed that these regulations could be moved without debate.

On the next three weeks' business, this morning the Business Committee discussed my draft statement as shown on the Chamberweb under supporting documents. The Deputy Presiding Officer determined that, under Standing Order No. 22.5, the following seven pieces of legislation need not be referred to Subject Committees for extended consideration: the National Health Service (General Medical Services) (Amendment) (Wales) (No.2) Regulations 2002; the National Health Service (General Medical Services Supplementary List) Regulations 2002; the National Health Service (General Dental Services) (Amendment) (Wales) (No.2) Regulations 2002; the National Health Service (General Ophthalmic Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2002; the Children Leaving Care (Amendment) (Wales) Regulations 2002; the Undersized Spider Crabs (Wales) Order 2002 and the Shellfish (Specification of Crustaceans) (Wales) Regulations 2002.

**Y Llywydd:** Gwelaf nad oes gwrthwynebiad i'r datganiad busnes. A oes unrhyw sylwadau?

**Janet Ryder:** There is already much talk

**Y Gweinidog dros Lywodraeth Agored (Carwyn Jones):** Mae rhai newidiadau i fusnes yr wythnos hon. Gwneir datganiad Jane Hutt ar y strategaeth troseiddwyr ifanc ar ddydd Iau 27 Mehefin bellach. Mae'r cynnig a drefnwyd ar gyfer heddiw i gymeradwyo dan Reol Sefydlog Rhif 27 y Cyfarwyddiadau Gwasanaeth Cymorth Ieuenciad (Cymru) 2002 wedi'i symud i ddydd Mawrth 2 Gorffennaf. Ddydd Iau, gyda chytundeb y Llywydd, ceisiaf gyflwyno cynnig trefniadol a fydd yn caniatáu imi ddod ymlaen â'r cynnig i gymeradwyo dan Reol Sefydlog Rhif 23 Reoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Ffioedd) (Diwygio) 2002. Bu raid imi gynnwys hynny ar y funud olaf ac ymddiheuraf os na roddwyd rhybudd digonol i aelodau'r Pwyllgor Busnes. Cytunodd y Pwyllgor y gellid cynnig y rheoliadau hyn heb ddadl.

Ynghylch busnes y tair wythnos nesaf, y bore yma trafododd y Pwyllgor Busnes fy natganiad drafft fel y'i gwelir ar we'r Siambro o dan ddogfennau ategol. Penderfynodd y Dirprwy Lywydd, o dan Reol Sefydlog Rhif 22.5, nad oedd angen cyfeirio'r saith darn deddfwriaeth canlynol i Bwyllgorau Pwnc ar gyfer ystyriaeth estynedig: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002; Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Atodol Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 2002; Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002; Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002; Rheoliadau Plant yn Gadael Gofal (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002; Gorchymyn Crancod Heglog Rhy Fach (Cymru) 2002 a Rheoliadau Pysgod Cregyn (Dynodi Cramenogion) (Cymru) 2002.

**The Presiding Officer:** I see that there are no objections to the business statement. Are there any comments?

**Janet Ryder:** Mae llawer o siarad yn barod

about the forthcoming comprehensive spending review announcement from Westminster. Given the importance of that announcement to the National Assembly's budget, will you ensure that a statement is made to Plenary on this matter before the recess?

**Alun Pugh:** Many people in north Wales feel that the selectors for the Commonwealth Games should hang their heads in shame, following the publication of the members of the Wales team. There are 300 members representing Wales, but only a handful of them are from the North. Could you take this up with the Minister for Culture, Sport and the Welsh Language and schedule a statement urgently?

**Carwyn Jones:** On Janet's point, I will consult with the appropriate Minister and report back to the Business Committee next week on what is proposed regarding the comprehensive spending review.

Alun feels passionately about the under-representation, as he sees it, of people from north Wales in Wales's Commonwealth Games team. I am sure that he is doing all that he can to improve on what he sees as a deficient situation. Jenny Randerson is not here today, but I am sure that Alun will do his utmost to ensure that she understands his concerns.

**The Presiding Officer:** I apologise, Minister; the leader of the Welsh Conservatives also wished to comment.

**Nick Bourne:** We note from your statement, Minister, that the election of the Chair of the Committee on European and External Affairs is scheduled for next week. However, in an Assembly Review of Procedure Committee meeting, a view was taken unanimously, and by all parties—including the Liberal Democrats, who were represented on that Committee along with all the other parties—that the chairmanship of that Committee should be open to all Assembly Members. We are now proposing to elect a new Chair in advance of that being implemented. Would it not be better for us to have a wider pool of potential Chairs to choose from? Many people feel that it would be better for the

am y cyhoeddiad sydd yn yr arfaeth gan San Steffan ar yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Oherwydd pwysigrwydd y cyhoeddiad hwnnw i gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol, a wnewch chi sicrhau y gwneir datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar y mater hwn cyn y gwyliau?

**Alun Pugh:** Teimla llawer o bobl yn y Gogledd y dylai bod cywilydd ar ddewiswyr Gemau'r Gymanwlad, yn dilyn cyhoeddi aelodau tîm Cymru. Mae 300 o aelodau'n cynrychioli Cymru, ond dim ond dyrnaid ohonynt sydd o'r Gogledd. A allech godi hyn gyda'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg a threfnu datganiad ar fyrder?

**Carwyn Jones:** Ar bwynt Janet, ymgynghoraf â'r Gweinidog priodol ac adroddaf yn ôl i'r Pwyllgor Busnes yr wythnos nesaf ar yr hyn sydd ar y gweill parthed yr adolygiad cynhwysfawr o wariant.

Mae Alun yn teimlo'n angerddol am yr hyn a wêl ef fel diffyg cynrychiolaeth i bobl o'r Gogledd yn nhîm Cymru ar gyfer Gemau'r Gymanwlad. Yr wyf yn siŵr ei fod yn gwneud popeth a all i wella sefyllfa sy'n ddiffygiol yn ei olwg ef. Nid yw Jenny Randerson yma heddiw, ond yr wyf yn siŵr y gwnaiff Alun ei orau glas i sicrhau ei bod yn deall ei bryderon.

**Y Llywydd:** Ymddiheuraf, Weinidog, yr oedd arweinydd Ceidwadwyr Cymru am wneud sylw hefyd.

**Nick Bourne:** Nodwn o'ch datganiad, Weinidog, fod etholiad Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol wedi'i drefnu ar gyfer yr wythnos nesaf. Fodd bynnag, mewn cyfarfod o Bwyllgor Adolygu Gweithdrefn y Cynulliad, barnwyd yn unfrydol, a chan bob plaid—gan gynnwys y Democratiaid Rhyddfrydol, a oedd wedi'u cynrychioli ar y Pwyllgor hwnnw ynghyd â'r holl bleidiau eraill—y dylai cadeiryddiaeth y Pwyllgor hwnnw fod yn agored i holl Aelodau'r Cynulliad. Yr ydym yn awr yn cynnig ethol Cadeirydd newydd cyn i hynny gael ei weithredu. Oni fyddai'n well inni gael cronfa ehangach o ddarpar Gadeiryddion i ddewis ohoni? Teimla llawer o bobl y

position to be opened up to a prominent ordinary Assembly Member. The Committee is not run on a party-political basis and often takes a consensual view. Would it not be better, in light of that, to withdraw this contentious election and wait until the Assembly Review of Procedure Committee's proposal has been included in Standing Orders? That will happen shortly and could happen even sooner should the Minister choose to bring it forward.

**Carwyn Jones:** I am aware of the Assembly Review of Procedure Committee's report and what it says about the Chair of this Committee. Nevertheless, at present, our Standing Orders state that the election of the Chair of this Committee shall take place under Standing Order No. 15, and that is what is proposed for next Tuesday.

*Derbyniwyd y datganiad busnes.  
Business statement adopted.*

### **Datganiad gan y Llywydd Statement by the Presiding Officer**

**The Presiding Officer:** I now return to the issues raised by Ron Davies and others on 18 June. I have received a letter from the First Minister which indicates that accountability for cross-cutting issues, including relations between Wales and Europe and the rest of the world, freedom of information, and human rights, falls on the Minister who is accountable for the areas of responsibility under which such issues arise. That means, for example, that Jane Davidson, as Minister for Education and Lifelong Learning, would be accountable to the Assembly for human rights issues arising from education policies. Similarly, Jane Hutt, as the Minister for Health and Social Services, would be accountable for a matter affecting Wales and Europe if that matter were related to health.

As a result of receiving that letter, I am satisfied that section 57(4) of the Government of Wales Act 1998 is being complied with and that the division between Subject Committees of the areas for which those Committees have responsibility is the same as the division between Ministers of the areas

byddai'n well agor y swydd i Aelod cyffredin blaenllaw o'r Cynulliad. Nid yw'r Pwyllgor wedi'i redeg ar sail bleidiol wleidyddol ac yn aml ceir consensws barn. Oni fyddai'n well, yn wyneb hynny, tynnu'r etholiad dadleuol hwn yn ôl ac aros nes y bydd cynnig Pwyllgor Adolygu Gweithdrefn y Cynulliad wedi'i gynnwys yn y Rheolau Sefydlog? Bydd hynny'n digwydd yn fuan a gallai ddigwydd yn fwy buan byth pe bai'r Gweinidog yn dewis ei symud ymlaen.

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn ymwybodol o adroddiad Pwyllgor Adolygu Gweithdrefn y Cynulliad a'r hyn a ddywed am Gadeirydd y Pwyllgor hwn. Serch hynny, ar hyn o bryd, dywed ein Rheolau Sefydlog y cynhelir etholiad Cadeirydd y Pwyllgor hwn o dan Reol Sefydlog Rhif 15, a dyna a fwriedir ddydd Mawrth nesaf.

**Y Llywydd:** Trof yn awr at y materion a godwyd gan Ron Davies ac eraill ar 18 Mehefin. Yr wyf wedi derbyn llythyr oddi wrth Brif Weinidog Cymru sy'n nodi bod atebolrwydd am faterion trawsbynciol, gan gynnwys y berthynas rhwng Cymru ac Ewrop a gweddill y byd, rhyddid gwybodaeth, a hawliau dynol, yn disgyn ar y Gweinidog sy'n atebol am y meysydd cyfrifoldeb y cyfyd y cyfryw faterion o danynt. Golyga hynny, er enghrafft, y byddai Jane Davidson, fel Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, yn atebol i'r Cynulliad am faterion hawliau dynol yn codi o bolisiau addysg. Yn yr un modd, byddai Jane Hutt, fel Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn atebol am fater a effeithiai ar Gymru ac Ewrop pe bai'r mater hwnnw'n gysylltiedig ag iechyd.

Yn sgîl derbyn y llythyr hwnnw, yr wyf yn fodlon y cydymffurfir ag adran 57(4) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a bod y rhaniad rhwng y Pwyllgorau Pwnc dros feysydd cyfrifoldeb y Pwyllgorau hynny yr un fath â'r rhaniad rhwng y Gweinidogion dros y meysydd cyfrifoldeb hynny. Fodd bynnag,

for which they have been allocated accountability. However, I would also expect Ministers who have cross-cutting responsibilities in areas for which they do not have formal accountability, to answer to the Assembly in Plenary and Committee in appropriate circumstances.

3:10 p.m.

Our Standing Orders already recognise that the Minister with responsibility for Assembly business may answer questions on matters related to his other responsibilities. That provides an opportunity for that Minister to be questioned on his cross-cutting responsibilities. Otherwise, Standing Orders do not provide for the questioning of Ministers, other than the First Minister, on cross-cutting issues. However, I have observed that some Ministers already answer questions on cross-cutting issues. This situation needs to be regularised. I am therefore asking the Business Committee to consider whether—and if so, how—Standing Orders might provide for other Ministers with cross-cutting responsibilities to be questioned on those responsibilities. I will place a copy of the First Minister's letter in the Library.

**Ron Davies:** I am grateful to you, Llywydd, for considering this matter and arranging to receive the views of the First Minister. I am also grateful that you will place a copy of his letter in the Library. However, having re-read section 57(4) of the Government of Wales Act 1998, I find no reference whatsoever in that section to cross-cutting issues. I fail to see at the outset, not having had the chance to read through and reflect on your comments, how calling the Deputy First Minister's world-wide responsibilities cross-cutting responsibilities excuses him from appearing before a Committee as every other Minister has to do. Nevertheless, I acknowledge that this matter will go before the Business Committee.

Perhaps you would consider it appropriate, Llywydd, to ask the Business Committee to reflect on this matter, as it does not only relate to the Deputy First Minister. I am sure that my colleague, Edwina Hart, the Minister for Finance, Local Government and Communities, would not want to be drawn

byddwn yn disgwyld hefyd i Weinidogion sydd â chyfrifoldebau trawsbynciol mewn meysydd lle nad oes ganddynt atebolwydd ffurfiol, ateb i'r Cynulliad mewn Cyfarfodydd Llawn a Phwyllgorau o dan amgylchiadau priodol.

Mae ein Rheolau Sefydlog eisoes yn cydnabod y gall y Gweinidog â chyfrifoldeb dros fusnes y Cynulliad ateb cwestiynau ar faterion cysylltiedig â'i gyfrifoldebau eraill. Mae hynny'n rhoi cyfle i holi'r Gweinidog hwnnw ar ei gyfrifoldebau trawsbynciol. Fel arall, nid yw'r Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer holi Gweinidogion, ac eithrio'r Prif Weinidog, ar faterion trawsbynciol. Fodd bynnag, yr wyf wedi sylwi bod rhai Gweinidogion eisoes yn ateb cwestiynau ar faterion trawsbynciol. Mae angen rheoleiddio'r sefyllfa hon. Gofynnaf felly i'r Pwyllgor Busnes ystyried a allai'r Rheolau Sefydlog ddarparu ar gyfer holi Gweinidogion eraill â chyfrifoldebau trawsbynciol ar y cyfrifoldebau hynny—ac os gallent, sut. Rhoddaf gopi o lythyr y Prif Weinidog yn y Llyfrgell.

**Ron Davies:** Yr wyf yn ddiolchgar ichi, Lywydd, am ystyried y mater hwn a threfnu i dderbyn barn y Prif Weinidog. Yr wyf yn ddiolchgar hefyd eich bod am osod copi o'i lythyr yn y Llyfrgell. Fodd bynnag, wedi ailddarllen adran 57(4) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, ni welaf unrhyw gyfeiriad o gwbl yn yr adran honno at faterion trawsbynciol. Methaf weld ar y dechrau, heb gael y cyfle i ddarllen drwy eich sylwadau a myfyrio arnynt, sut y mae galw cyfrifoldebau byd-eang y Dirprwy Brif Weinidog yn gyfrifoldebau trawsbynciol yn ei esgusodi rhag ymddangos gerbron Pwyllgor fel y mae'n rhaid i bob Gweinidog arall. Serch hynny, cydnabyddaf yr aiff y mater hwn gerbron y Pwyllgor Busnes.

Efallai y barnech ei bod yn briodol, Lywydd, gofyn i'r Pwyllgor Busnes fyfyrir ar y mater hwn, gan nad â'r Dirprwy Brif Weinidog yn unig y mae'n ymwneud. Yr wyf yn siŵr na fyddai ar fy nghyd-Aelod, Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, eisiau cael ei thynnu i mewn i

into an unseemly debate about whether she should report to the Local Government and Housing Committee on her finance responsibilities. Again, section 57(4) seems to be quite clear on this matter. Nevertheless, I thank you for your response to the point of order that I raised. Perhaps you would now consider referring all these matters to the Business Committee for its full consideration.

**The Presiding Officer:** In response to that, my request to the Business Committee is a broad one. As I said in my ruling, I would expect Ministers who have cross-cutting responsibilities in areas for which they do not have formal accountability to answer questions in Plenary and Committee in appropriate circumstances. There is provision in Standing Orders for Ministers other than the Ministers who are members of the Committee to attend Committee meetings. That Standing Order has already been used on several occasions and I would envisage it being used again in future. However, I want the Business Committee to consider all aspects of this issue.

**Ron Davies:** I do not want to pursue the matter at this moment, Llywydd, but I put on record the fact that to me, section 57(4) makes clear that the arrangement of responsibilities between Ministers and Committees 'shall be the same'. That is the wording in the Act, and I presume that appropriate legal advice will be given to the Business Committee when it considers the matter.

**The Presiding Officer:** Indeed. I have already received legal advice, which led me to say today that I believed that that section of the Act had been complied with. The advice that was available to me—and any other advice that it may require—will be available to the Business Committee.

**Nick Bourne:** The section is clear. It mentions the fields of accountability being the same as that of the Committees. It would be difficult to conceive that it should be otherwise. The position with the Deputy First Minister is different from that with the cross-cutting responsibilities given to other Ministers, in that the full title of his post, in

ddadl anweddai ar a ddylai hi adrodd i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar ei chyfrifoldebau cyllid. Eto, mae adran 57(4) yn ymddangos yn berffaith glir ar y mater hwn. Er hynny, diolchaf ichi am eich ymateb i'r pwyt o drefn a godais. Efallai yn awr yr ystyried gyfeirio'r holl faterion hyn i'r Pwyllgor Busnes i'w hystyried yn llawn.

**Y Llywydd:** Mewn ymateb i hynny, mae fy nghais i'r Pwyllgor Busnes yn un eang. Fel y dywedais yn fy nyfarniad, byddwn yn disgwyl i Weinidogion sydd â chyfrifoldebau trawsbynciol mewn meysydd lle nad oes ganddynt atebolwydd ffurfiol ateb cwestiynau mewn Cyfarfodydd Llawn a Phwyllgorau mewn amgylchiadau priodol. Mae darpariaeth yn y Rheolau Sefydlog i Weinidogion ar wahân i'r Gweinidogion sy'n aelodau o'r Pwyllgor fynychu cyfarfodydd Pwyllgor. Defnyddiwyd y Rheol Sefydlog honno eisoes ar sawl achlysur a gallaf weld y caiff ei defnyddio eto yn y dyfodol. Fodd bynnag, hoffwn i'r Pwyllgor Busnes ystyried holl agweddau'r mater hwn.

**Ron Davies:** Nid oes arnaf eisiau mynd ar ôl y mater ar hyn o bryd, Lywydd, ond hoffwn gofnodi'r ffaith bod adran 57(4) yn dweud yn glir, i mi, y bydd trefniadaeth cyfrifoldebau rhwng Gweinidogion a Phwyllgorau yr un fath. 'Shall be the same' yw'r geiriad yn y Ddeddf, a chymeraf y rhoddir cyngor cyfreithiol priodol i'r Pwyllgor Busnes pan ystyria'r mater.

**Y Llywydd:** Yn wir. Yr wyf eisoes wedi cael cyngor cyfreithiol, a'm harweiniodd i ddweud heddiw fy mod yn credu y cydymffurfifiwyd â'r adran honno o'r Ddeddf. Bydd y cyngor a oedd ar gael i mi—ac unrhyw gyngor arall a fyn—ar gael i'r Pwyllgor Busnes.

**Nick Bourne:** Mae'r adran yn glir. Mae'n sôn bod y meysydd atebolwydd yr un fath â rhai'r Pwyllgorau. Byddai'n anodd dychmygu y dylai fod fel arall. Mae'r sefyllfa gyda'r Dirprwy Brif Weinidog yn wahanol i honno gyda'r cyfrifoldebau trawsbynciol a roddir i Weinidogion eraill, gan fod teitl llawn ei swydd, wrth gynnwys 'a Chymru

including ‘and Wales Abroad’ is similar to the title ‘Minister for Health and Social Services’. I cannot see how the legal advice can be otherwise than that the Committee has to mirror the Minister’s responsibilities. Furthermore, that section must be read in conjunction with Standing Orders, in which it is clear that this does not just affect the Deputy First Minister. Under Standing Orders, which can only be changed by a two-thirds majority vote in favour, only two Ministers may have no Committees. Those Committees, according to section 57(4), have to mirror the responsibilities of their Minister. Given that the First Minister does not have a Subject Committee, a Committee must either shadow the Minister for Open Government’s responsibilities or scrutinise the areas for which he is responsible, or the Local Government and Housing Committee must broaden its ambit to include finance. Having examined the Act again as dispassionately as I could, I can reach no other conclusion.

**The Presiding Officer:** I am grateful to the leader of the Welsh Conservatives for his comments, which are now on record. I will not respond further as I have indicated that I want this matter to be discussed fully by the Business Committee. Nick Bourne is free to pursue these issues in Business Committee, or with me privately at any stage, should he wish to do so.

### Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion Addysg Composite Motion: Approval of Education Orders

**Y Llywydd:** O dan Reol Sefydlog Rhif 22.25, nid yw'r cynnig hwn yn destun dadl.

**Y Gweinidog dros Lywodraeth Agored (Carwyn Jones):** Cynigiaf fod

*y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog Rhif 22.25:*

1. yn cymeradwyo Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Addysg Bellach (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mai 2002; ac

2. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Ddeddfau

Dramor’, yn debyg i’r teitl ‘Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol’. Ni welaf sut y gall y cyngor cyfreithiol ddweud unrhyw beth ond bod yn rhaid i’r Pwyllgor adlewyrchu cyfrifoldebau’r Gweinidog. Ymhellach, rhaid darllen yr adran honno ochr yn ochr â’r Rheolau Sefydlog, lle mae’n glir nad dim ond ar y Dirprwy Brif Weinidog y mae hyn yn effeithio. O dan y Rheolau Sefydlog, na ellir eu newid ond drwy bleidlais fwyafri o ddau draean o blaidd, dim ond dau Weinidog a all fod heb Bwyllgorau. Rhaid i’r Pwyllgorau hynny, yn ôl adran 57(4), adlewyrchu cyfrifoldebau’r Gweinidog. Gan nad oes gan y Prif Weinidog Bwyllgor Pwnc, naill ai rhaid i Bwyllgor gysgodi cyfrifoldebau’r Gweinidog dros Lywodraeth Agored neu graffu ar y meysydd y mae’n gyfrifol amdanyst, neu rhaid i’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ledu ei faes llafur i gynnwys cyllid. Wedi archwilio’r Ddeddf eto mor ddiuedd ag y gallwn, ni allaf ddod i unrhyw gasgliad arall.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn ddiolchgar i arweinydd Ceidwadwyr Cymru am ei sylwadau, sydd bellach ar gofnod. Ni wnaf ymateb ymhellach gan fy mod wedi nodi fy mod am i’r mater hwn gael ei drafod yn llawn gan y Pwyllgor Busnes. Mae Nick Bourne yn rhydd i ddilyn y materion hyn yn y Pwyllgor Busnes, neu gyda mi’n breifat ar unrhyw adeg, os dymuna.

**The Presiding Officer:** Under Standing Order No. 22.25, this motion is not subject to debate.

**The Minister for Open Government (Carwyn Jones):** I propose that

*the National Assembly, acting under Standing Order No. 22.25:*

1. approves the Further Education Teachers’ Qualifications (Wales) Regulations 2002, laid in the Table Office on 28 May 2002; and

2. considers the report of the Legislation

*nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun  
pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau  
Cymwysterau Athrawon Addysg Bellach  
(Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa  
Gyflwyno ar 11 Mehefin 2002;*

*3. yn cymeradwyo Gorchymyn Addysg (Cyrff  
sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2002 a  
osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mai  
2002; ac*

*4. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Ddeddfau  
nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun  
pryder yn y Gorchymyn drafft, Gorchymyn  
Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod)  
(Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa  
Gyflwyno ar 11 Mehefin 2002;*

*5. yn cymeradwyo Gorchymyn Addysg (Cyrff  
sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) 2002 a  
osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mai  
2002; ac*

*6. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Ddeddfau  
nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun  
pryder yn y Gorchymyn drafft, Gorchymyn  
Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru)  
2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar  
11 Mehefin 2002. (NDM1088)*

*Committee, which has not identified any  
matters for concern in the draft Order, the  
Further Education Teachers' Qualifications  
(Wales) Regulations 2002, laid in the Table  
Office on 11 June 2002;*

*3. approves the Education (Recognised  
Bodies) (Wales) Order 2002 laid in the Table  
Office on 28 May 2002; and*

*4. considers the report of the Legislation  
Committee, which has not identified any  
matters for concern in the draft Order, the  
Education (Recognised Bodies) (Wales)  
Order 2002, laid in the Table Office on 11  
June 2002;*

*5. approves the Education (Listed Bodies)  
(Wales) Order 2002, laid in the Table Office  
on 28 May 2002; and*

*6. considers the report of the Legislation  
Committee, which has not identified any  
matters for concern in the draft Order, the  
Education (Listed Bodies) (Wales) Order  
2002, laid in the Table Office on 11 June  
2002. (NDM1088)*

*Cynnig: O blaid 47, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion: For 47, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Cairns, Alun  
Chapman, Christine  
Cynog, Dafis  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, David  
Davies, Glyn  
Davies, Geraint  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison

Hancock, Brian  
Hart, Edwina  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Ieuan Wyn  
Jones, Helen Mary  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Law, Peter  
Melding, David  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Johnathan  
Morgan, Rhodri  
Pugh, Alun  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Williams, Kirsty  
Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 3.15 p.m.  
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 3.15 p.m.*

### **Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus Code of Practice on Public Appointments**

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jocelyn Davies and amendment 2 in the name of Jonathan Morgan.

**The Minister for Open Government (Carwyn Jones):** I propose that

*the National Assembly*

*1. approves the revised 'Code of Practice for Ministerial Appointments to Public Bodies', which was e-mailed to Members on 18 June 2002; and*

*2. endorses the proposed issuing of the code by the First Minister in September 2002. (NDM1090)*

This is a revised version of the Assembly's code, as originally agreed in May 1999, and it takes full account of the Commissioner for Public Appointments's revisions to her code of practice last summer. However, it goes further than that. As part of our commitment

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies a gwelliant 2 yn enw Jonathan Morgan.

**Y Gweinidog dros Lywodraeth Agored (Carwyn Jones):** Cynigiaf fod

*y Cynulliad Cenedlaethol*

*1. yn cymeradwyo'r fersiwn ddiwygiedig o'r 'Cod Ymarfer ar Benodiadau'r Gweinidigion i Gyrrff Cyhoeddus' a anfonwyd drwy'r e-bost at yr Aelodau ar 18 Mehefin 2002; ac*

*2. yn cymeradwyo bwriad Prif Weinidog Cymru i gyhoeddi'r cod ym mis Medi 2002. (NDM1090)*

Fersiwn diwygiedig yw hwn o god y Cynulliad, fel y'i cytunwyd yn wreiddiol ym Mai 1999, ac mae'n rhoi ystyriaeth lawn i ddiwygiadau'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus i'w chod ymarfer hi yr haf diwethaf. Fodd bynnag, aiff ymhellach na

to improving the effectiveness of public bodies in Wales, through openness, transparency and equality of opportunity, we have sought to ensure that the code fully reflects the National Assembly's view.

The commissioner, Dame Rennie Fritchie, has been fully consulted on this revised code, and will address the Committee on Equality of Opportunity tomorrow. I am sure that we will all be interested to hear the outcome of today's Plenary debate.

The revised code goes further than the commissioner's code in the following respects: first, it formalises our approach to cross-party scrutiny through the involvement of Subject Committee members where Ministers take part in the selection process, thus guarding against political bias. We are already applying this approach, and I am grateful for the enthusiasm and commitment of Members who have taken part in the appointments process so far. Secondly, it provides for a much stronger process in recruiting and deploying independent assessors, whose scrutiny role is vital. The process for their appointment to our list of assessors—for example, via open advertisement, criteria and interviews—will be as robust as for other public appointments. We will undertake a major recruitment exercise in the autumn. Following their appointment, the new assessors must undergo induction training, in accordance with the commissioner's code, and an annual training event, which is an Assembly requirement. Thirdly, we propose that candidates for public appointments who are unsuccessful at the sift stage or at interview should be routinely offered feedback. We need to respond positively to interested parties and new talent, and encourage those who may be unsuccessful at their first attempt.

It is all about having a public appointment system that sets the standards in fairness and transparency that the Government wishes to see, and it wants Wales to lead the way on this. The code is not the end of the story. We are also committed to ensuring that appointments are more representative of the communities that they serve.

hynny. Fel rhan o'n hymrwymiad i wella effeithiolwydd cyrff cyhoeddus yng Nghymru, drwy sicrhau eu bod yn agored, yn dryloyw ac yn cynnig cyfle cyfartal, yr ydym wedi ceisio sicrhau bod y cod yn adlewyrchu'n llawn farn y Cynulliad Cenedlaethol.

Ymgynghorwyd yn llawn â'r comisiynydd, y Fonesig Rennie Fritchie, ar y cod diwygiedig hwn, a bydd hi'n annerch y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yfory. Yr wyf yn siŵr y bydd gan bawb ohonom ddiddordeb mewn clywed canlyniad y ddadl hon.

Mae'r cod diwygiedig yn mynd ymhellach na chod y comisiynydd yn y pethau canlynol: yn gyntaf, mae'n ffurfioli ein hymagwedd at graffu trawsbleidiol drwy gyfranogiad aelodau Pwyllgorau Pwnc lle bydd Gweinidogion yn cymryd rhan yn y broses ddewis, gan warchod felly yn erbynffaeth wleidyddol. Yr ydym eisoes yn gweithredu fel hyn, ac yr wyf yn ddiolchgar am frwdfrydedd ac ymroddiad Aelodau a gymerodd ran yn y broses benodi hyd yma. Yn ail, mae'n darparu ar gyfer proses lawer cryfach o reciwtio a defnyddio aseswyr annibynnol, y mae eu rôl graffu yn allweddol. Bydd y broses ar gyfer eu penodi i'n rhestr aseswyr—er enghraifft, drwy hysbysebu agored, meini prawf a chyfweliadau—cyn gryfed ag ar gyfer penodiadau cyhoeddus eraill. Ymgymern ag ymarfer reciwtio mawr yn yr hydref. Wedi eu penodi, rhaid i'r aseswyr newydd gael hyfforddiant cyflwyno, yn unol â chod y comisiynydd, a chymryd rhan mewn digwyddiad hyfforddi blynnyddol, sy'n ofynnol gan y Cynulliad. Yn drydydd, cynigwn y dylid cynnig adborth fel mater o drefn i ymgeiswyr am benodiadau cyhoeddus sy'n aflwyddiannus yn y cam didoli neu mewn cyfweliad. Mae angen inni ymateb yn gadarnhaol i rai sy'n dangos diddordeb a doniau newydd, ac annog y rhai sydd efallai'n aflwyddiannus ar eu cais cyntaf.

Mae a wnelo hyn oll â chael trefn benodiadau cyhoeddus sy'n gosod y safonau o ran tegwch a thryloywder y mae'r Llywodraeth yn dymuno'u gweld, ac mae am i Gymru arwain y ffordd yn hyn o beth. Nid y cod yw diwedd y stori. Yr ydym wedi ymrwymo hefyd i sicrhau bod penodiadau'n fwy cynrychioliadol o'r cymunedau a

wasanaethant.

3:20 p.m.

Members of the Committee on Equality of Opportunity have been engaged in considering the 'Mainstreaming Equality in Public Appointments' action plan, which we will present to Plenary in the autumn. I thank Committee members for the attention given to this and for their continued commitment. I hope that all Members will encourage appropriate individuals, particularly individuals from groups that are currently under-represented, to put themselves forward for public appointments, including as independent assessors.

I now turn to the amendments. We will not support Jocelyn Davies's amendment 1. This is a Government motion and the Government seeks endorsement of its actions. The public appointment system seeks and deserves our full endorsement. We will support Jonathan Morgan's amendment 2. This important issue is fully addressed in the 'Mainstreaming Equality in Public Appointments' action plan, which has received cross-party support.

I trust that the Assembly will join me in approving this code of practice and in recommending that it be formally issued in the autumn.

**Gareth Jones:** Cynigiaf welliant 1 yn enw Jocelyn Davies. Ym mhwynt 2, dileu 'cymeradwyo' a rhoi 'nodi' yn ei le.

Cyfeiriodd y Gweinidog at egwyddorion pwysig, a dywedodd ei fod am inni gymeradwyo'r cod hwn. Yr wyf yn siomedig bod y cod yn uniaith Saesneg. Dyma'r ail dro i hyn ddigwydd o fewn byr amser. Nid yw hynny'n adlewyrchu'r cyfle cyfartal y cyfeiriodd y Gweinidog ato. Mae'n weddus mai nodi yn hytrach na chymeradwyo'r cod y dylem, oherwydd bod peth ffordd i fynd.

Mae'n dda gweld bod y cod yn cydnabod datganoli, ac mae'n galonogol bod cod y

Maeaelodau'r Pwyllgor Cyfartal wedi bod wrthi'n ystyried cynllun gweithredu 'Gwneud Cydraddoldeb yn Rhan o'r Brif Ffrwd wrth wneud Penodiadau Cyhoeddus', a gyflwynir gennym i'r Cyfarfod Llawn yn yr hydref. Diolchaf iaelodau'r Pwyllgor am y sylw a roddwyd i hyn ac am eu hymrwymiad parhaus. Gobeithiaf y bydd pob Aelod yn annog unigolion priodol, yn enwedig o grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol ar hyn o bryd, i gyflwyno'u hunain ar gyfer penodiadau cyhoeddus, gan gynnwys fel aseswyr annibynnol.

Trof yn awr at y gwelliannau. Ni chefnogwn welliant 1 yn enw Jocelyn Davies. Cynnig gan y Llywodraeth yw hwn ac mae'r Llywodraeth yn ceisio cymeradwyaeth i'w gweithredoedd. Mae'r drefn benodiadau cyhoeddus yn ceisio ac yn haeddu ein cymeradwyaeth lawn. Cefnogwn welliant 2 yn enw Jonathan Morgan. Rhoddir sylw llawn i'r mater pwysig hwn yn y cynllun gweithredu 'Gwneud Cydraddoldeb yn Rhan o'r Brif Ffrwd wrth wneud Penodiadau Cyhoeddus', a gafodd gefnogaeth drawsbleidiol.

Hyderaf yr ymuna'r Cynulliad â mi i gymeradwyo'r cod ymarfer hwn ac argymhell ei gyhoeddi'n ffurfiol yn yr hydref.

**Gareth Jones:** I propose amendment 1 in the name of Jocelyn Davies. In point 2, replace 'endorses' with 'notes'.

The Minister referred to important principles, and said that he wants us to endorse this code. I am disappointed that the code is only available in English. This is the second time, within a short space of time, that this has happened. That is not in keeping with the equality of opportunity to which the Minister referred. It is appropriate that we note rather than endorse this code, as there is still some way to go.

It is good to see that the code recognises devolution, and it is encouraging that the

comisiynydd wedi ei addasu i ystyried anghenion Cymru. Gobeithiaf fod yr egwyddor hon yn ymestyn yn ôl i swyddfa'r comisiynydd.

Gwnaf rai pwyntiau i egluro pam nad allwn gymeradwyo'r cod. Mae rhai cwestiynau yn codi. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r cod yn cynnwys rhestr o'r cyrff cyhoeddus y mae'n berthnasol iddynt. Dylai hefyd gynnwys diffiniad manwl o gorff cyhoeddus. A yw Estyn, er enghraifft, yn gorff cyhoeddus?

Mae'r rhannau o'r cod sy'n cyfeirio at gyfartal yn peri gofid imi gan nad ydynt yn sôn am iaith. Nid oes cyfeiriad at y Gymraeg. Mae'n siŵr bod y Llywodraeth yn cytuno bod trawsdoriad ieithyddol yn ein cyrff cyhoeddus yn cyfrannu'n helaeth at gynrychiolaeth deg. Mae pennod 6 yn rhestru'r ystadegau a gaiff eu casglu o'r broses benodi. Nid oes sôn am gasglu ystadegau am drawsdoriad ieithyddol y cyrff. Mae'n bwysig y cydnabyddir yr iaith yn y cod, gan fod pwynt 5.3 yn datgan na all y comisiynydd ymchwilio i gwynion oni bai eu bod yn torri amodau'r cod ymarfer. Gan nad oes sôn am y Gymraeg, nid ellir ymchwilio cwynion yn ymwneud â hi felly.

Mae pwynt 2.10 yn trafod datgan buddiant. Mae'r seiri rhyddion—i'm cyfeillion ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad—yn cael sylw arbennig yma. Ys gwn i pam? Cânt eu cynnwys fel enghraifft. Cytunwn â'r egwyddor y dylid datgan materion a allai arwain at wrthdaro buddiannau, ond ni welaf reswm dros wahaniaethu rhwng y seiri rhyddion a mudiadau eraill, yn enwedig yn sgîl trafodaeth a phenderfyniad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

Hoffwn gael cadarnhad gan y Gweinidog ar bwynt 2.12 ar dryloywder y system benodi. Sonnir am bwysigrwydd cofnodi popeth a chael y dogfennau'n barod ar gyfer archwiliad. A fydd gan y cyhoedd fynediad at y wybodaeth hon, yn ogystal â'r archwiliwyr? Mae pennod 4 yn trafod archwiliadau Swyddfa'r Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus. A fydd yr adroddiadau hyn ar gael i'r cyhoedd?

commissioner's code has been amended to take account of Wales's needs. I hope that this principle extends back to the commissioner's office.

I will make a few points to explain why we cannot endorse the code. Some questions arise. It would be useful if the code were to contain a list of the public bodies to which it applies. It should also contain a detailed definition of a public body. Is Estyn a public body, for example?

The sections of the code that refer to equality of opportunity are a cause for concern, as they do not refer to language. There is no reference to the Welsh language. The Government probably agrees that a linguistic cross-section on our public bodies makes a significant contribution to equitable representation. Chapter 6 lists the statistics that will be collated from the appointment process. There is no mention of collating statistics about the linguistic cross-section of these bodies. It is important that the language is acknowledged in the code, as point 5.3 states that the commissioner cannot investigate complaints unless they breach the code of practice. As the Welsh language is not mentioned, complaints relating to it cannot therefore be investigated.

Point 2.10 refers to declarations of interests. The freemasons—for my colleagues on the Committee on Standards of Conduct—are given a special mention here. I wonder why? They are included as an example. We agree with the principle that matters that could lead to a conflict of interest should be declared, but I do not see any reason for singling out the freemasons, particularly in view of the Committee on Standards of Conduct's discussion and decision.

I would like confirmation from the Minister on point 2.12 on the transparency of the appointment system. The importance of documenting everything and having the documents readily available for audit is mentioned. Will the public have access to this information as well as the auditors? Chapter 4 refers to the audits conducted by the Office of the Commissioner for Public Appointments. Will these reports be available to the public?

Croesawn y ffaith bod y ddogfen yn argymhell na ddylai un person fod yn aelod o fwy nag un corff cyhoeddus—mae hynny'n gwneud synnwyr. Mae'r ffaith bod yr un bobl yn aelodau o fwy nag un corff yn canoli pŵer yn nwyo nifer fach o bobl, a allai arwain at wrthdaro buddiannau.

Gofynnaf i'r Gweinidog hefyd am gadarnhad ar oblygiadau'r ddogfen hon ar bolisi'r Llywodraeth. A yw'n flaenoriaeth o hyd i'r Llywodraeth gwtogi ar nifer y cyrff cyhoeddus sydd yn bodoli yng Nghymru?

I ba raddau mae'r hyfforddiant ar gyfer y penodiadau hyn—ac mae hyn yn ymwneud â gwelliant 2 yn enw Jonathan Morgan—yn ymgorffori egwyddorion sylfaenol y Cynulliad Cenedlaethol? Mae'r cod yn monitro penodiadau unigol—gwelwn hynny—ond pa ddarpariaeth sydd i arfarnu'r darlun ehangach o benodiadau Cymru gyfan, ac i ba raddau y maent yn drawsdoriad cynrychiadol derbyniol?

Gobeithiaf y bydd gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies yn cael ei dderbyn. Yr ydym yn nodi yn hytrach na chymeradwyo'r cod hwn. Cefnogwn hefyd, am resymau amlwg, welliant 1 yn enw Jonathan Morgan, ond gofynnwn i'r Gweinidog sicrhau bod pawb sydd yn ymwneud â'r penodiadau hyn yn deall egwyddorion sylfaenol y Cynulliad Cenedlaethol, a bod yr egwyddorion hynny yn cael eu hymgorffori a'u monitro yn y broses benodi.

**David Melding:** I propose amendment 2 in the name of Jonathan Morgan. Add point 3:

*3. recognises the need to recruit people from all sections of society to serve on public bodies.*

I begin by acknowledging the progress that has been made since 1997 in the way in which we make public appointments. This has accelerated under the Assembly since 1999. It is appropriate that these matters are discussed in a relatively non-partisan way because we need to appoint the best candidates to positions of public responsibility. That is in the interests of everyone in the Chamber and the people

We welcome the recommendation that no one person should serve on more than one public body—that makes sense. The fact that the same people serve on several bodies centralises power in the hands of a small number of people and could lead to conflicts of interest.

I also ask the Minister for confirmation on the implications of this document for Government policy. Is it still a Government priority to cut back on the number of public bodies in Wales?

To what extent does the training for these appointments—and this relates to amendment 2 in the name of Jonathan Morgan—embody the underlying principles of the National Assembly? The code monitors individual appointments—we can see that—but what provision is there for evaluating the wider picture of all-Wales appointments and the extent to which they provide an acceptable representative cross-section?

I hope that amendment 1 in the name of Jocelyn Davies will be carried. We note rather than endorse this code. We also, for obvious reasons, support amendment 1 in the name of Jonathan Morgan, but ask the Minister to ensure that everyone involved in these appointments understands the underlying principles of the National Assembly, and that those principles are embodied and monitored in the appointment process.

**David Melding:** Cynigiaf welliant 2 yn enw Jonathan Morgan. Ychwanegu pwnt 3:

*3. yn cydnabod yr angen i recriwtio pobl o bob rhan o gymdeithas i wasanaethu ar gyrrf cyhoeddus.*

Dechreuaf drwy gydnabod y symud ymlaen a wnaed ers 1997 yn y modd y gwnawn benodiadau cyhoeddus. Mae hyn wedi cyflymu dan y Cynulliad ers 1999. Mae'n briodol trafod y materion hyn mewn ffordd gymharol amhleidiol oherwydd mae angen penodi'r ymgeiswyr gorau i swyddi o gyfrifoldeb cyhoeddus. Mae hynny er budd pawb yn y Siambra'r bobl a wasanaethwn yng Nghymru. Mae angen symud ymlaen

whom we serve in Wales. Further progress is needed on some issues, but it is important to say that there has been positive progress to date.

It is important that people who reflect their communities apply for public appointments. We know that the number of black and ethnic minority candidates is far too low, and we need to encourage more candidates from those communities to apply for public appointments. We must implement active measures and ensure that encouragement and training are given, and that, perhaps, an approved list of candidates deemed fit for public appointment is drawn up, even if they have not secured a position. There are many measures that we can take and it is appropriate that we think of a positive strategy when considering such codes of practice.

The Committee on Equality of Opportunity has examined the issue of the number of Welsh speakers appointed to public bodies, particularly health authorities and NHS trusts, and we found disturbing evidence that Welsh speakers do not currently serve in the numbers that we would expect. Thirty-five per cent of health organisations in Wales have no Welsh speakers at all, which is shocking, and a further 20 per cent are below what you would expect on a population rate basis. Therefore, only 45 per cent of public bodies in the health sector are above the basic all-Wales population rate of Welsh speakers. To give a concrete example, Pembrokeshire and Derwen NHS Trust, which serves a predominantly Welsh-speaking population, has no Welsh-speaking board members. That is clearly deficient and it is scandalous that that situation can be allowed to persist.

3:30 p.m.

We must have statistical evidence so that we can monitor such situations. I know that the Minister will be as surprised as I was to learn about those facts and will want to rectify them. However, it is important that we keep an eye on the situation; the only way we can do that is to have effective information. It has taken about two years for us to get this information on the number of Welsh speakers

ymhellach ar rai materion, ond mae'n bwysig dweud y bu symud ymlaen cadarnhaol hyd yn hyn.

Mae'n bwysig cael pobl sy'n adlewyrchu'u cymunedau i ymgeisio am benodiadau cyhoeddus. Gwyddom fod nifer yr ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig a du yn llawer rhy isel, ac mae angen annog mwy o ymgeiswyr o'r cymunedau hynny i ymgeisio am benodiadau cyhoeddus. Rhaid rhoi mesurau gweithredol ar waith a sicrhau y rhoddir anogaeth a hyfforddiant, ac, efallai, y llunnir rhestr gymeradwy o ymgeiswyr y barnwyd eu bod yn addas ar gyfer swyddi cyhoeddus, hyd yn oed os na chawsant swydd. Mae llawer o gamau y gallwn eu cymryd ac mae'n briodol inni feddwl am strategaeth positif wrth ystyried codau ymarfer o'r fath.

Mae'r Pwyllgor Cyfartal wedi edrych ar nifer y Cymry Cymraeg a benodir i gyrff cyhoeddus, yn enwedig awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau GIG, a chawsom dystiolaeth anhapus nad yw siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd yn gwasanaethu yn y niferoedd a ddisgwyliem. Mae 35 y cant o sefydliadau iechyd yng Nghymru heb siaradwyr Cymraeg o gwbl, sy'n ddifrifol, ac mae 20 y cant arall yn is na'r hyn a ddisgwylid ar sail y boblogaeth. Felly, dim ond 45 y cant o gyrff yn y sector iechyd sydd uwchlaw'r gyfradd sylfaenol o siaradwyr Cymraeg ym mhoblogaeth Cymru gyfan. A rhoi engraifft ymarferol, nid oes gan Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen, sy'n gwasanaethu poblogaeth Gymraeg yn bennaf, ddim aelodau Cymraeg eu hiaith ar ei bwrdd. Mae hynny'n amlwg yn ddiffygol ac mae'n warthus y gellir caniatáu i'r sefyllfa honno barhau.

Rhaid inni gael dystiolaeth ystadegol i'n galluogi i fonitro sefyllfaoedd o'r fath. Gwn y bydd y Gweinidog yn synnu gymaint ag a wneuthum i o ganfod y ffeithiau hynny ac y bydd eisiau eu cywiro. Er hynny, mae'n bwysig cadw llygad ar y sefyllfa; yr unig ffordd y gallwn wneud hynny yw cael gwybodaeth effeithiol. Cymerodd ryw ddwy flynedd inni gael y wybodaeth hon am nifer y

serving on public bodies in the health sector. It has been a long struggle, but we eventually got it. The information shows that there is a deficiency.

The level of remuneration needs to be mentioned when we talk about the code. Many of the posts that we seek to encourage people to apply for are not well remunerated, although they may require a commitment of three or four days a week from people who become, for example, chairs of large NHS hospitals. If the remuneration offered is between £18,000 and £22,000 for what is really a full-time job—with a time commitment of four days, which is often more in reality—we will have a restricted field of candidates. We already have evidence that some of the shortlists for these important public appointments are not as strong as we would like. I urge the Minister to consider this. It has been considered in the past but I do not think that the nettle has yet been grasped. It needs to be, because we will face difficulties if we do not sort this out.

I note that many ad hoc bodies are being created under the Assembly's ambit. They are usually called task and finish groups but they also masquerade under a series of alternative names. We should remember that these bodies can give advice to the Executive but they are not subject to the usual procedures for public appointments because they are not, technically, public bodies. We need to be concerned if these ad hoc bodies give direct advice to the Executive, and we need to consider whom they represent and on what basis they give advice.

Finally, it should be the norm that all public agencies and organisations hold their board meetings in public. That needs to be included in all the subordinate legislation that determines how they can act and in any guidance given to those organisations. There is no such guarantee regarding the new local health boards and that is disappointing—their meetings should be held in public.

**Peter Law:** On that note, I am pleased to speak in this debate because it was my colleague, Ron Davies, who, when he was Secretary of State for Wales, issued the

siaradwyr Cymraeg sy'n gwasanaethu ar gyrrf cyhoeddus yn y sector iechyd. Bu'n ymdrech hir, ond fe'i cawsom yn y diwedd. Mae'r wybodaeth yn dangos bod diffyg.

Mae angen ystyried lefel y tâl pan siaradwn am y cod. Ni thelir yn dda am lawer o'r swyddi yr ydym yn ceisio annog pobl i ymgeisio amdanyst, er y gallant alw am ymrwymiad tridiau neu bedwar diwrnod yr wythnos gan bobl a aiff, er enghraifft, yn gadeiryddion ysbytai GIG mawr. Os mai rhwng £18,000 a £22,000 yw'r tâl a gynigir am swydd sydd mewn gwirionedd yn un amser llawn—gydag ymrwymiad amser o bedwar diwrnod, sydd yn aml yn fwy mewn gwirionedd—maes cyfyngedig o ymgeiswyr a gawn ni. Eisoes mae gennym dystiolaeth nad yw rhai o'r rhestri byrion ar gyfer y penodiadau cyhoeddus pwysig hyn cyn gryfed ag yr hoffem. Anogaf y Gweinidog i ystyried hyn. Fe'i hystyriwyd yn y gorffennol ond nid wyf yn meddwl bod y ddanhadlen wedi'i gwasgu eto. Mae angen gwneud, oherwydd byddwn yn wynebu trafferthion os na roddwn drefn ar hyn.

Sylwaf fod llawer o gyrrf ad hoc yn cael eu creu dan gwmpas y Cynulliad. Fel arfer fe'u gelwir yn grwpiau gorchwyl a gorffen ond maent hefyd yn ymrithio dan gyfres o enwau eraill. Dylem gofio y gall y cyrff hyn rhoi cyngor i'r Weithrediaeth ond nad ydynt yn gaeth wrth y gweithdrefnau arferol ar gyfer penodiadau cyhoeddus am nad ydynt, yn dechnegol, yn gyrrf cyhoeddus. Mae angen inni bryderu os rhydd y cyrff ad hoc hyn gyngor uniongyrchol i'r Weithrediaeth, ac mae angen inni ystyried pwy maent yn ei gynrychioli ac ar ba sail y rhoddant gyngor.

Yn olaf, dylai fod yn arferol i bob asiantaeth a chorff cyhoeddus gynnal eu cyfarfodydd bwrdd yn gyhoeddus. Mae angen cynnwys hynny ym mhob is-ddeddfwriaeth sy'n pennu sut y gallant weithredu ac mewn unrhyw ganllawiau a roddir i'r cyrff hynny. Nid oes gwarant o'r fath ar y byrddau iechyd lleol newydd ac mae hynny'n destun siom—dylai eu cyfarfodydd fod yn gyhoeddus.

**Peter Law:** Ar y nodyn hwnnw, yr wyf yn falch o siarad yn y ddadl hon oherwydd fy nghyd-Aelod Ron Davies a gyhoeddodd, pan oedd yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y

notice that all health trust meetings should be open to the public. That came from the Labour Government elected in 1997. I agree with what David Melding said. That needs to continue. We need openness and accountability in all public bodies. If we are supposed to honour those values in the Assembly, we should ask nothing less of the bodies that answer to the National Assembly.

I welcome the code of practice, as I always do, because anything that opens such bodies to the public must be commended. However, I feel that there is also some window dressing, because there is much disillusionment and scepticism among the public, particularly among those who might aspire to serve on a public body and who might have tried and found that they got nowhere. I regret that, because there is still a deficit in the representation of women, black and ethnic minorities, disabled people and Welsh speakers. We must act—not just pay lip service to the issue. I am not convinced about the system of assessors, but I welcome the fact that they are now appointed by the Office of the Commissioner for Public Appointments, because it is an independent body. However, we must also be able to scrutinise the assessors. They may award a certificate to say that they think that the procedure was appropriate, but we must also realise that we must face up to the traditional problem of the dead hand of the civil service in the background, next to the Minister, and the damn-with-faint-praise approach that you sometimes get from some under-secretary who might not think that a certain person would fit in. I could be talking about myself—but I am sure that I am being oversensitive.

We need to appoint people who are prepared to stand up and speak out for communities and say what they feel is right. We want a radical approach and people who will give of their time and commit themselves to their communities. I do not see the need for a lower and higher tier. That suggests that a person is less committed if they are in the lower tier. I cannot understand that: it is ridiculous. Whether or not a person is paid £20,000 or more a year, he or she must reach a certain standard when working for the

dylai pob cyfarfod ymddiriedolaeth iechyd fod yn agored i'r cyhoedd. Daeth hynny oddi wrth y Llywodraeth Lafur a etholwyd yn 1997. Cytunaf a'r hyn a ddywedodd David Melding. Mae angen i hynny barhau. Mae angen i'n cyrff cyhoeddus i gyd fod yn agored ac yn atebol. Os ydym i fod i anrhyydeddu'r gwerthoedd hynny yn y Cynulliad, ni ddylem ofyn dim llai gan y cyrff sy'n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Croesawaf y cod ymarfer, fel bob amser, oherwydd rhaid cymeradwyo unrhyw beth sy'n agor cyrff o'r fath i'r cyhoedd. Fodd bynnag, teimlaf fod yno ychydig o addurno ffenestr, oherwydd mae cryn ddadrithiad ac amheuaeth ymysg y cyhoedd, yn enwedig y rheini a allai ddeisyfu gwasanaethu ar gorff cyhoeddus ac sydd efallai wedi ceisio a heb gyrraedd unman. Mae hynny'n peri gofid imi, oherwydd mae diffyg yn parhau yng nghynrychiolaeth menywod, lleiafrifoedd du ac ethnig, pobl anabl a siaradwyr Cymraeg. Rhaid inni weithredu—nid siarad yn unig am y mater. Nid wyf wedi fy narbwyllo yng hylch y system aseswyr, ond croesawaf yffaith y caint eu penodi erbyn hyn gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, oherwydd mae'n gorff annibynnol. Serch hynny, mae angen i ni allu craffu ar yr aseswyr. Efallai y cylwynant dystysgrif i ddweud eu bod o'r farn fod y drefn yn briodol, ond rhaid i ninnau sylweddoli bod yn rhaid inni wynebu problem draddodiadol llaw farw'r gwasanaeth sifil yn y cefndir, nesaf at y Gweinidog, a'r dull glasganmoliaethus a geir weithiau gan ryw is-ysgrifennydd sy'n meddwl efallai na fyddai person arbennig yn ffittio i mewn. Gallwn fod yn sôn amdanaf fi fy hun—ond mae'n siŵr fy mod yn bod yn orsensitif.

Mae angen penodi pobl sy'n barod i sefyll a siarad dros gymunedau a dweud yr hyn y maent yn ei gredu sy'n iawn. Mae eisiau ymagwedd radicalaidd a phobl a wnaiff roi o'u hamser ac ymrwymo i'w cymunedau. Ni welaf fod angen haen is ac uwch. Mae hynny'n awgrymu fod gan rywun lai o ymrwymiad os yw yn yr haen is. Ni allaf ddeall hynny: mae'n hurt. P'rwn ai bod rhywun ar dâl o £20,000 neu fwy y flwyddyn ai peidio, rhaid iddo neu iddi gyrraedd safon benodol wrth weithio i'r sector cyhoeddus a

public sector and serving the community. The commitment will be the same regardless of the salary. It is insulting to regard those who are not paid but work voluntarily in public life as being in the lower tier, which, I understand, is suggested in this document. That does not make sense.

People should be drawn from all walks of life. We have not achieved that to date. Why are we not holding recruitment and information meetings in different areas and telling people to come along and learn about the experience of holding a public appointment? We have enough resources and an army of people working at the Assembly—some of us do not understand why we do not receive answers from Ministers given that we have an army of staff. We should use those staff to go out into the communities to encourage people to play a part in public life. When we last debated this issue, we discussed the idea of sending e-mails and using the local press and the red-tops to attract people. It sounded good, but how much has been achieved? How much have we done since the last debate? I think that this is the third debate on public appointments since the Assembly was established. Much more needs to be done.

Assembly Members also need to receive more information. Sadly, I am not given notice of appointments made unless I read it in the press. That is not good enough, as I have said before. Full lists of appointees for all Assembly positions should be sent to all Members within 48 hours of those appointments being made. I think that that is courteous and shows accountability. I have previously asked for this to be set up, but it has not happened yet. You only learn of appointments if a newspaper picks up on the story or someone tells you in the street. That is not good enough because we have a role to play on behalf of communities throughout Wales. I represent the people of Blaenau Gwent and I want to know who has been appointed to which posts.

An alphabetical list of public sector appointees must also be kept on computer. I am certain that that exists somewhere in the Government's records. However, it should be

gwasanaethu'r gymuned. Bydd yr ymrwymiad yr un fath beth bynnag fo'r tâl. Sarhad i rai sy'n gweithio'n wirfoddol mewn bywyd cyhoeddus heb dâl yw eu gosod yn yr haen is, sef yr hyn a awgrymir yn y ddogfen hon, yn ôl a ddeallaf. Nid yw hynny'n gwneud synnwyr.

Dylid tynnu pobl o bob cefndir mewn bywyd. Nid ydym wedi cyflawni hynny eto. Pam nad ydym yn cynnal cyfarfodydd reciwtio a gwybodaeth mewn gwahanol ardaloedd ac yn dweud wrth bobl am ddod acw i gael gwybod am y profiad o ddal swydd gyhoeddus? Mae gennym ddigon o adnoddau a byddin o bobl yn gweithio yn y Cynulliad—nid yw rhai ohonom yn deall pam na dderbyniwn atebion oddi wrth Weinidogion gan fod byddin o staff gennym. Dylem ddefnyddio'r staff hynny i fynd allan i'r cymunedau i annog pobl i chwarae rhan mewn bywyd cyhoeddus. Pan drafodasom y mater hwn ddiwethaf, trafodasom y syniad o anfon e-byst a defnyddio'r wasg leol a'r papurau top coch i ddenu pobl. Yr oedd yn swnio'n dda, ond faint a gyflawnwyd? Beth yr ydym wedi'i wneud ers y ddadl ddiwethaf? Credaf mai dyma'r drydedd ddadl ar benodiadau cyhoeddus ers sefydlu'r Cynulliad. Mae angen gwneud llawer mwy.

Mae angen i Aelodau'r Cynulliad dderbyn mwy o wybodaeth hefyd. Yn anffodus, ni chaf fi wybod am benodiadau a wnaed oni ddarllenaf amdanynt yn y wasg. Nid yw hynny'n ddigon da, fel y dywedais o'r blaen. Dylid anfon rhestr i llawn o benodiadau i bob swydd yn y Cynulliad at bob Aelod o fewn 48 awr i'r penodi. Credaf fod hynny'n gwrtais ac yn dangos atebolrwydd. Yr wyf wedi gofyn o'r blaen am sefydlu'r drefn hon, ond nid yw wedi digwydd eto. Dim ond os bydd papur newydd yn codi'r stori, neu os dywed rhywun wrthych yn y stryd, y cewch wybod am benodiadau. Nid yw hynny'n ddigon da oherwydd mae gennym rôl i'w chwarae ar ran cymunedau ledled Cymru. Yr wyf fi'n cynrychioli pobl Blaenau Gwent ac mae arnaf eisiau gwybod pwysydd wedi'u penodi i ba swyddi.

Rhaid cadw rhestr yn nhrefn yr wyddor ar gyfrifiadur o benodiadau'r sector cyhoeddus. Yr wyf yn sicr fod hynny'n bodoli yn rhywle yng nghofnodion y Llywodraeth. Fodd

made public so that people can see how many bodies a person is a member of. That is reasonable. Sifting and shortlisting applications should be done by independent people, because civil servants have too much influence. In the same way, former civil servants should not be given positions on public bodies as a retirement package. Those who are good enough to apply for a position and who spend their time attending interviews should at least be sent a letter with the result of the interview, even if they are not successful. That is common courtesy.

**Phil Williams:** The transformation in how we appoint people to serve on public bodies is a positive feature of the National Assembly that is often underestimated. Long ago, when the Presiding Officer was president of Plaid Cymru, I chaired a working group to examine what functions an elected body in Wales might carry out. A theme of concern at that time was the growth in the number and power of unelected quangos. If I were to add a charge to the long list of indictments levelled at the Conservative Party during its 18 years in Government, it would be about the way in which it appointed members of quangos—that did as much harm to Wales as its misguided policies. Our working group collected lists of people chosen by Secretaries of State to sit on the boards and councils—

**David Melding:** I made somewhat elliptical references to this issue, but is it not the case that the Conservative Party just kept an old system and did not reform it? I agree that we should be held to account for that, but the last Conservative Government did not invent the system, it was just the way that matters were usually done.

3:40 p.m.

**Phil Williams:** At that time, the growth in the number of quangos, as well as their influence and power, was important. When we collected a list of quango members, it came as a dreadful shock, especially when we saw the names of people we knew. Of course, there were exceptions, and I should include Glyn in that.

bynag, dylai fod yn gyhoeddus fel y gall pobl weld sawl corff y mae rhywun yn aelod arnynt. Mae hynny'n rhesymol. Dylai pobl annibynnol fod yn gyfrifol am ddidoli ceisiadau a llunio rhestri byrion, oherwydd mae gan weision sifil ormod o ddylanwad. Yn yr un modd, ni ddylid rhoi lle ar gorff cyhoeddus i hen weision sifil fel pecyn ymddeol. Dylai'r rheini sy'n ddigon da i wneud cais am benodiad ac sy'n treulio'u hamser yn mynchyu cyfweliadau o leiaf dderbyn llythyr gyda chanlyniad y cyfweliad, hyd yn oed os na fuont yn llwyddiannus. Cwrteisi cyffredin yw hynny.

**Phil Williams:** Mae trawsnewidiad y modd y penodwn bobl i wasanaethu ar gyrff cyhoeddus yn nodwedd bositif o'r Cynulliad Cenedlaethol a gaiff ei danbrisio yn aml. Erstalwm, pan oedd y Llywydd yn llywydd Plaid Cymru, cadeiriais weithgor i archwilio pa swyddogaethau y gallai corff etholedig yng Nghymru eu cyflawni. Un achos pryder ar y pryd oedd y twf yn nifer a grym y cwangos anetholedig. Pe bawn yn ychwanegu cyhuddiad at y rhestr hir o gyhuddiadau a wnaed yn erbyn y Blaid Geidwadol yn ystod ei 18 mlynedd mewn Llywodraeth, byddai'n ymwneud â'r modd y penododd aelodau cwangos—gwnaeth hynny gymaint o niwed i Gymru â'i pholisiau ffôl. Casglodd ein gweithgor restri o bobl a ddewiswyd gan Ysgrifenyddion Gwladol i eistedd ar fyrddau a chynghorau—

**David Melding:** Cyfeiriais yn eliptig braidd at y mater hwn, ond onid yw'n wir mai dim ond cadw hen system, heb ei diwygio, a wnaeth y Blaid Geidwadol? Cytunaf y dylid ein dal i gyfrif am hynny, ond nid y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf a ddyfeisiodd y system, ond dyna'n symbl y ffordd yr arferid gwneud pethau.

**Phil Williams:** Ar y pryd, yr oedd y twf yn nifer y cwangos, yn ogystal â'u dylanwad a'u grym, yn bwysig. Pan gasglasom restr o aelodau cwangos, cawsom sioc ofnadwy, yn enwedig pan welsom enwau pobl yr oeddym yn eu hadnabod. Wrth gwrs, yr oedd eithriadau, a dylwn gynnwys Glyn yn hynny.

**Ron Davies:** Phil, will you reflect on the fact that no cloud is so black as to not have a silver lining? The quangos were stuffed, by and large, with Tory placemen by John Redwood, who was the greatest recruiting sergeant we ever had in the campaign for the National Assembly for Wales.

**Phil Williams:** I agree. I sometimes think that we should have statues made of Mrs Thatcher and John Redwood to honour them as architects of devolution. [Laughter.] That was mainly what changed my mind from not voting 'yes' in 1979 to voting 'yes' with enthusiasm in 1997.

A rewarding part of my work in the Assembly has been to serve, as a representative of the Economic Development Committee, on the advisory panel for appointments to the Wales Tourist Board, the Welsh Development Agency and the Welsh Industrial Development Advisory Board. There are always a large number of highly-qualified candidates, and seven or more people are involved in sifting the applications and interviewing shortlisted candidates. That is a huge improvement on having one Secretary of State make the appointment at a Tory garden fête.

The cup is half full, yet half empty. One question that our working group asked long ago was, 'What is the best balance between people elected to positions of influence and answerable at an election, and those appointed?' Over the years, the number of elected positions had steadily decreased, especially with the decline in numbers of people on local authorities. At the same time, the number of Government-appointed positions has steadily increased. The establishment of the Assembly and the role of elected Members in making appointments has shifted the balance back a little toward democracy, but the underlying drift is still there. Does the Minister have a record of how many public appointments the Assembly makes, compared with the number made by the last Secretary of State for Wales before the Assembly was established?

How many appointments are made using the full and progressive procedure of involving a

**Ron Davies:** Phil, a wnewch chi fyfyrion ar y ffaith nad oes yr un cwmwl mor ddu fel nad oes ganddo ymwl arian. Llenwyd y cwangos, i raddau helaeth, â swyddwyr Toriaidd gan John Redwood, sef y sarifiant reciwtio gorau a gawsom erioed yn yr ymgrych dros Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Phil Williams:** Yr wyf yn cytuno. Weithiau byddaf yn meddwl y dylem gomisiynu cerfluniau o Mrs Thatcher a John Redwood i'w hanrhayeddu fel penseiri datganoli. [Chwerthin.] Dyna'n bennaf beth newidiodd fy meddwl i o beidio â phleidleisio 'ie' yn 1979 i bleidleisio 'ie' gyda brwd frydedd yn 1997.

Rhan bleserus o'm gwaith yn y Cynulliad fu gwasanaethu, fel cynrychiolydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd, ar y panel cyngori ar benodiadau i Fwrdd Croeso Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru. Ceir nifer fawr o ymgeiswyr â chymwysterau da bob tro, a bydd saith neu ragor wrthi'n didoli'r ceisiadau ac yn cyfweld yr ymgeiswyr a roddwyd ar y rhestr fer. Mae hynny'n welliant enfawr dros gael un Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y penodiad mewn garddwest Doriaidd.

Mae'r cwpan yn hanner llawn, ond eto'n hanner gwag. Un cwestiwn a ofynnodd ein gweithgor amser maith yn ôl oedd, 'Beth yw'r cydbwysedd gorau rhwng pobl a etholir i safleoedd o ddylanwad ac sy'n atebol mewn etholiad, a rhai a benodir?' Dros y blynnyddoedd, mae nifer y safleoedd etholedig wedi lleihau'n raddol, yn enwedig gyda'r lleihad yn niferoedd pobl ar awdurdodau lleol. Ar yr un pryd, mae nifer y safleoedd penodedig gan y Llywodraeth wedi cynyddu'n raddol. Mae sefydlu'r Cynulliad a'r rôl Aelodau etholedig wrth wneud penodiadau wedi troi'r fantol yn ôl fymryn tuag at ddemocratiaeth, ond mae'r duedd waelodol yn dal yno. A oes gan y Gweinidog gofnod o sawl penodiad cyhoeddus a wna'r Cynulliad, o gymharu â'r nifer a wnaed gan Ysgrifennydd Gwladol diwethaf Cymru cyn sefydlu'r Cynulliad?

Sawl penodiad a wneir gan ddefnyddio'r drefn lawn a blaengar o sefydlu panel gydag

panel with independent assessors and cross-party representation from the Assembly? There seem to be some odd discrepancies: the Economic Development Committee is represented on panels appointing all members of the Welsh Development Agency and the Wales Tourist Board, but other Committees only appear to be represented when a chair is appointed. If that is based solely on the level of remuneration—and my impression is that it might be—that may not be appropriate. Some bodies that do not give remuneration to appointees still have tremendous national influence and importance.

Which procedure is followed in the appointment of the members of our 80 taskforces, or task and finish groups? They also have an important role and should be subject to the same standards as those set for other public appointments. How is the Committee that advises the Minister on information technology appointed? That has always puzzled and concerned me.

It is real progress that definite steps are being taken to encourage various minorities to apply for public positions. I know that a record is kept on application forms, but is there any overall monitoring of the number of applicants from groups such as disabled persons and ethnic minorities, and how do the number of such applicants compare with the number appointed? I welcome all the improvements, but there is a long way to go.

**Eleanor Burnham:** The Welsh Liberal Democrats welcome this motion and the revised code of practice for public appointments. It is important that the highest standards are maintained in public life, and public appointments must be seen to be made on merit.

The Assembly's code of practice is based on the code of the Commissioner for Public Appointments, a role created on the recommendation of the Nolan committee, instituted by John Major in 1994. The Nolan committee commented that there is much public concern about appointments to quangos, and the widespread belief is that such appointments are not always made on merit.

aseswyr annibynnol a chynrychiolaeth trawsbleidiol o'r Cynulliad? Mae'n ymddangos bod ambell anghysonder rhyfedd: cynrychiolir y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar baneli i benodi holl aelodau Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru, ond mae'n ymddangos na chynrychiolir y Pwyllgorau eraill ond pan benodir cadeirydd. Os yw hynny'n seiliedig ar lefel y tâl yn unig—a'r argraff a gaf fi yw effallai ei fod—hwyrach nad yw hynny'n briodol. Mae rhai cyrff nad ydynt yn rhoi tâl i bobl a benodir iddynt yn dal i fod â dylanwad a phwysigrwydd cenedlaethol aruthrol.

Pa drefn a ddilynir wrth benodi aelodau ein 80 o dasgluoedd, neu grwpiau gorchwyl a gorffen? Mae ganddynt hwythau rôl bwysig a dylent fod yn gaeth i'r un safonau a'r rheini a bennwyd ar gyfer penodiadau cyhoeddus eraill. Sut y penodir y Pwyllgor sy'n cynghori'r Gweinidog ar dechnoleg gwybodaeth? Mae hynny wastad wedi peri penbleth a phryder imi.

Gwir gynnydd yw bod camau pendant yn cael eu cymryd i annog amryfal leiafrifoedd i ymgeisio am swyddi cyhoeddus. Gwn y cedwir cofnod ar ffurflenai cais, ond a oes unrhyw fonitro cyffredinol o nifer yr ymgeiswyr o grwpiau fel pobl anabl a lleiafrifoedd ethnig, a sut y mae'r nifer o ymgeiswyr o'r fath yn cymharu â'r nifer a benodir? Croesawaf y gwelliannau i gyd, ond mae ffordd bell i fynd.

**Eleanor Burnham:** Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n croesawu'r cynnig hwn a'r cod ymarfer diwygiedig ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Mae'n bwysig cadw'r safonau uchaf mewn bywyd cyhoeddus, a rhaid i benodiadau cyhoeddus gael eu gwneud ar deilyngdod, a rhaid i hynny fod yn weladwy.

Mae cod ymarfer y Cynulliad yn seiliedig ar god y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, rôl a grëwyd ar argymhelliaid pwylgor Nolan, a sefydlwyd gan John Major yn 1994. Nododd pwylgor Nolan fod llawer o bryder cyhoeddus ynghylch penodiadau i gwangos, ac mai'r gred gyffredinol yw na wneir y penodiadau hynny bob amser ar sail teilyngdod.

It is also important to ensure that all regions of Wales are represented, including north Wales. I noted recently that one of the flood management committees was without north Wales representation. I urge the Minister to put that right.

The seven principles underlying the Assembly's code of practice should ensure that public appointments are made fairly and equitably. Appointments should be made on merit in an open and accountable fashion. It is vital that public appointments are open to all, no matter what their class, creed or colour. Everyone should have an equal opportunity. Public appointments to quangos were not made on merit in the past, and many accusations of sleaze were made against the Government of the time. There was a perception that the same old people were always appointed—it is best described as 'jobs for the boys'. The public perception has been that who you know is more important than whether you are the best person for the job.

Wales is a diverse country, blessed with a wealth of talent and ability, which we have not tapped into effectively in the past. I disagree with the tiers and the differing remuneration mentioned by others. We must not be complacent and we must continue to improve. Holding public office and representing our communities is a great honour and privilege, and repaying our communities must be encouraged. The best way to do that is to maintain the highest possible standards of probity, which this code of practice should go some way to doing.

**Alun Cairns:** I welcome the motion and the code of practice. More importantly, I will reflect on the principles on which the code of practice has been drafted. In his opening remarks, the Minister talked about openness, transparency and accountability—the three most important principles in this debate. I will also reflect on some of Phil Williams's comments and Ron Davies's intervention about the 18 years of Conservative Government. I accept David Melding's point that we continued with a system that already existed. If the Conservative Government of that period should accept the criticisms made

Mae'n bwysig sicrhau hefyd fod cynrychiolaeth i holl ranbarthau Cymru, gan gynnwys y Gogledd. Sylwais yn ddiweddar fod un o'r pwylgorau rheoli llifogydd heb gynrychiolaeth o'r Gogledd. Anogaf y Gweinidog i gywiros hynny.

Dylai'r saith egwyddor waelodol i god ymarfer y Cynulliad sicrhau y gwneir penodiadau cyhoeddus yn deg a chyflawn. Dylid penodi ar sail teilyngdod mewn modd agored ac atebol. Mae'n hollbwysig fod penodiadau cyhoeddus yn agored i bawb, ni waeth beth fo'u dosbarth, eu cred na'u lliw. Dylai pawb gael cyfle cyfartal. Ni wneid penodiadau cyhoeddus i gwangos ar sail teilyngdod yn y gorffennol, a gwnaethpwyd sawl cyhuddiad o lygred yn erbyn Llywodraeth y dydd. Yr oedd canfyddiad mai'r un hen bobl a gâi eu penodi o hyd—y ffordd orau i'w ddisgrifio yw 'swyddi i'r hogiau'. Y canfyddiad cyhoeddus oedd fod pwy yr ydych yn ei adnabod yn bwysicach na ph'un ai chi yw'r person gorau ar gyfer y swydd.

Mae Cymru'n wlad sy'n llawn amrywiaeth, wedi'i bendithio â chyfoeth o ddawn a gallu, nad ydym wedi ei ddefnyddio'n effeithiol yn y gorffennol. Anghytunaf â'r haenau ac â'r gwahaniaethau tâl a grybwyllywd gan eraill. Rhaid inni beidio â llaesu dwylo a rhaid inni ddal i wella. Braint ac anrhydedd o'r mwyaf yw dal swydd gyhoeddus a chynrychioli ein cymunedau, a rhaid annog talu'r pwyth i'n cymunedau. Y ffordd orau o wneud hynny yw drwy gynnal y safonau gonestrwydd uchaf posibl, rhywbeth y dylai'r cod ymarfer hwn fynd ffordd tuag at ei wneud.

**Alun Cairns:** Croesawaf y cynnig a'r cod ymarfer. Yn bwysicach, myfyriaf ar yr egwyddorion y drafftowyd y cod ymarfer arnynt. Yn ei sylwadau agoriadol, siaradodd y Gweinidog am fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol—tair egwyddor bwysicaf y ddadl hon. Myfyriaf hefyd ar rai o sylwadau Phil Williams ac ymyriad Ron Davies ynglŷn â'r 18 mlynedd o Lywodraeth Geidwadol. Derbyniad bwynt David Melding ein bod wedi parhau â system a oedd yn bodoli eisoes. Os dylai'r Llywodraeth Geidwadol o'r cyfnod hwnnw dderbyn y feirniadaeth a gafodd ar fater penodiadau cyhoeddus a

of it in terms of public appointments in that it continued the procedure established by previous Governments, then it must also take credit for establishing the Nolan committee and the Nolan principles, which led to today's code of practice in relation to public appointments. In acknowledging the points made by Phil Williams and Ron Davies, I hope that they accept John Major's contribution to developing that and correcting that wrong.

**David Davies:** Do you agree that we should also take responsibility for appointing many Labour members, such as Peter Law, to quangos across Wales?

**Alun Cairns:** Peter Law has earned himself the name of 'quango man'; some of our policies were perhaps not implemented to full effect because there were so many Labour members on those bodies who are trying to scupper our chances of re-election. However, that is in the past and for another debate.

The Welsh Assembly Government claims to be one of the most open in western Europe. Openness, transparency and accountability have already been mentioned. The Government claims to demonstrate that by publishing Cabinet minutes and by the gender balance in the Cabinet. However, Phil Williams highlighted task and finish groups. When I first tabled a question on this issue, 77 task and finish groups were in place. Weeks later, there are more than 80 task and finish groups. I remember asking Andrew Davies in one of his first Economic Development Committee meetings as Minister for Economic Development, whether the task and finish group that concluded in the Assembly investment grants had adhered to the Nolan principles. Andrew Davies said that he assumed so. His official saved him by saying that task and finish groups did not need to adhere to those principles because their members are appointed. I tabled questions to discover how conflicts of interest were managed. The answer, with regard to all task and finish groups, was that it was not known whether conflicts of interest were taken into consideration. The average gender balance on those 80 or so task and finish groups is two

hithau wedi parhau â'r drefn a sefydlwyd gan Lywodraethau blaenorol, yna rhaid iddi hefyd gymryd clod am sefydlu pwyllgor Nolan ac egwyddorion Nolan, a arweiniodd at god ymarfer heddiw ar benodiadau cyhoeddus. Wrth gydnabod y pwyntiau a wnaethpwyd gan Phil Williams a Ron Davies, gobeithiaf y derbyniant hwythau gyfraniad John Major at ddatblygu hynny a chywiro'r camwri hwnnw.

**David Davies:** A gytunwch y dylem hefyd gymryd cyfrifoldeb am benodi llawer o aelodau Llafur, fel Peter Law, i gwangos ar draws Cymru?

**Alun Cairns:** Mae Peter Law wedi ennill yr enw 'quango man' iddo'i hun; efallai na chafodd rhai o'n polisiau ni eu gweithredu i'w llawn effaith oherwydd fod cymaint o aelodau Llafur ar y cyrff hynny a oedd yn ceisio difetha ein siawns o gael ein hailethol. Fodd bynnag, mae hynny yn y gorffennol ac yn destun dadl arall.

Honna Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bod ymysg y llywodraethau mwyaf agored yng ngorllewin Ewrop. Soniwyd eisoes am fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol. Hawlia'r Llywodraeth ei bod yn dangos hynny drwy gyhoeddi cofnodion y Cabinet a thrwy'r cydbwysedd rhwng y ddau ryw yn y Cabinet. Fodd bynnag, tynnodd Phil Williams ein sylw at grwpiau gorchwyl a gorffen. Pan gyflwynais gwestiwn ar y mater hwn gyntaf, yr oedd 77 o grwpiau gorchwyl a gorffen wedi'u sefydlu. Wythnosau'n ddiweddarach, mae mwy nag 80 o grwpiau gorchwyl a gorffen. Cofiaf ofyn i Andrew Davies yn un o'i gyfarfodydd cyntaf o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd fel Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, a oedd y grŵp gorchwyl a gorffen a gytunodd ar grantiau buddsoddi'r Cynulliad wedi glynu at egwyddorion Nolan. Dywedodd Andrew Davies ei fod yn tybio ei fod. Achubwyd ef gan ei swyddog a ddywedodd nad oedd angen i grwpiau gorchwyl a gorffen llyn u at yr egwyddorion hynny oherwydd fod eu haelodau yn benodedig. Cyflwynais gwestiynau i ddarganfod sut yr ymdrinnid â gwrthdrawiadau buddiannau. Yr ateb, ar gyfer pob grŵp gorchwyl a gorffen, oedd nad oedd yn hysbys a gymerid gwrthdrawiadau

men to one woman. Some groups have 15 members, 14 of whom are men, to cite the worst examples.

buddiannau i ystyriaeth. Ar gyfartaledd, ceir cydbwysedd o ddau ddyn i un ferch ar y tua 80 o grwpiau gorchwyl a gorffen. Mae gan rai grwpiau 15 aelod a 14 ohonynt yn ddynion, i ddyfynnu'r enghreifftiau gwaethaf.

3:50 p.m.

**Christine Chapman:** I welcome your interest in this issue. Can we now look forward to your party showing a new-found enthusiasm for increasing the number of female candidates in next year's Assembly elections?

**Alun Cairns:** Christine misses the important point. This Government claims the credit for gender balance among its membership and in the Cabinet. However, when it comes to appointing to key advisory bodies, it rides roughshod over all those rules and flies in the face of its principles of openness, transparency and accountability. You cannot claim credit for ensuring gender balance unless you are prepared to accept the responsibility for the make-up of the task and finish groups. I suspect that the Minister will say that responsibility for the accountability and transparency of task and finish groups lies with Committees. However, half the time, Committees do not know whether a task and finish group is in place.

The Committees' forward work programmes are in place. Will the Minister make a commitment that all Ministers will supply their Subject Committees with progress reports on task and finish groups, from their establishment to their conclusion, so that the democratically elected Subject Committees can have a democratic influence over them? In the example from the Economic Development Committee that I highlighted, the report came to the Committee after the policy had been implemented. What sort of acceptance was that of the Subject Committees' policy-making role?

**Lorraine Barrett:** As Peter Law said, we have discussed this issue on several occasions. The Committee on Equality of Opportunity seems to have been discussing this issue since the Assembly was established. I welcome the revised code, and

**Christine Chapman:** Croesawaf eich diddordeb yn y mater hwn. A gawn ni edrych ymlaen yn awr at frwdfrydedd newydd yn eich plaid tuag at gynyddu nifer yr ymgeiswyr benywaidd yn etholiadau'r Cynulliad y flwyddyn nesaf?

**Alun Cairns:** Mae Christine yn methu'r pwyt pwysig. Mae'r Llywodraeth hon yn hawlio'r clod am gydbwysedd rhwng y rhywiau ymhlið ei haelodau ac yn y Cabinet. Fodd bynnag, yn achos penodi i gyrrff cynghori allweddol, mae'n sathru'r rheolau hynny i gyd dan draed ac yn mynd yn gwbl groes i'w hegwyddorion agored, tryloyw ac atebol. Ni allwch hawlio clod am sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau oni bai eich bod yn barod i dderbyn y cyfrifoldeb am gyfansoddiad y grwpiau gorchwyl a gorffen. Yr wyf yn amau y dywed y Gweinidog mai cyfrifoldeb Pwyllgorau yw sicrhau bod grwpiau gorchwyl a gorffen yn atebol ac yn dryloyw. Fodd bynnag, hanner yr amser, nid yw Pwyllgorau'n gwybod a oes grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu.

Mae blaenragleni gwaith y Pwyllgorau wedi'u trefnu. A wnaiff y Gweinidog ymrwymo y bydd pob Gweinidog yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'w Pwyllgorau Pwnc ar hynt grwpiau gorchwyl a gorffen, o'u dechreuad i'w diwedd, fel y gall y Pwyllgorau Pwnc etholedig democraidd gael dylanwad democraidd drostynt? Yn yr enghraifft a amlygais o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd, daeth yr adroddiad i'r Pwyllgor ar ôl i'r polisi gael ei weithredu. Pa fath o dderbyniad oedd hynny o rôl lunio polisi'r Pwyllgorau Pwnc?

**Lorraine Barrett:** Fel y dywedodd Peter Law, yr ydym wedi trafod y mater hwn ar sawl achlysur. Mae'n ymddangos bod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn trafod y mater hwn byth ers sefydlu'r Cynulliad. Croesawaf y cod diwygiedig, a gobeithiaf y bydd yn

I hope that it will drive the issue forward and start to change how we make appointments to public bodies. We need a diverse group of assessors to help us interview candidates, but we also need a diverse group of candidates to apply for the posts. I support the Conservatives' amendment 2. Like other Members, I have raised this issue consistently in the Committee on Equality of Opportunity. Until we reach out to all communities in Wales to let people know what contribution they can make to public bodies, we will never get away from the 'usual suspects'. We must do more than advertise in *The Western Mail* if we want to reach out to all sections of society. We must get the message over to community groups, as we have discussed in Committee. Perhaps we can use groups such as parent-teacher associations, the lesbian, gay and bisexual forum in Wales, the various black and ethnic minorities support groups and the many women support groups to begin with. As Gareth Jones mentioned, it is important that we offer training to anyone who is remotely interested in serving on public bodies, to give people the confidence to apply.

**Glyn Davies:** I have only just decided to contribute to this debate. I probably have more experience of the system under the previous Government than other Members, as I was a leading quango figure for many years. I thank Phil Williams; I think that he intended to make a generous comment about me, but Ron Davies interfered and spoilt it, so Phil did not get much chance to be complimentary. I welcome the recent trend. As chair of a quango, I discussed this issue with other quango chairs, and the generally held view was that we wanted to move in this direction. The arrangements at the time were a continuation of the previous system and, looking back, we did not move quickly enough to make our views known. The present system is far healthier and looks much better. I share Alun Cairns's view that we should extend this to cover task and finish groups. I am not saying this in my defence, but even when appointments were made with little apparent consultation, efforts were made to ensure that people had a connection with the local community.

gyrru'r mater ymlaen ac yn dechrau newid y modd y gwnawn benodiadau i gyrrf cyhoeddus. Mae arnom angen grŵp amrywiol o aseswyr i'n helpu i gyfweld ymgeiswyr, ond mae arnom angen grŵp amrywiol o ymgeiswyr hefyd i geisio am y swyddi. Cefnogaeth welliant 2 gan y Ceidwadwyr. Fel Aelodau eraill, yr wyf finnau wedi codi'r mater hwn yn gyson yn y Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Nes inni ymgynraedd allan i bob cymuned yng Nghymru i adael i bobl wybod pa gyfraniad y gallant ei wneud i gyrrf cyhoeddus, ni wnawn fyth symud i ffwrdd oddi wrth yr 'un hen wynebau'. Rhaid inni wneud mwy na hysbysebu yn *The Western Mail* os ydym am ymgynraedd allan i bob rhan o gymdeithas. Rhaid inni gyfleo'r neges i grwpiau cymunedol, fel a drafodwyd gennym yn y Pwyllgor. I ddechrau, efallai y gallwn ddefnyddio grwpiau fel cymdeithasau rhieni-athrawon, y fforwm lesbiaid, hoywon a deurywiol yng Nghymru, yr amryfal grwpiau cefnogi lleiafrifoedd du ac ethnig a'r nifer fawr o grwpiau cefnogi menywod. Fel y soniodd Gareth Jones, mae'n bwysig inni gynnig hyfforddiant i unrhyw un sydd â'r diddordeb lleiaf mewn gwasanaethu ar gyrrf cyhoeddus, er mwyn rhoi'r hyder i bobl ymgeisio.

**Glyn Davies:** Dim ond newydd benderfynu cyfrannu at y ddadl hon yr wyf fi. Mae'n debyg bod gennyf fwy o brofiad o'r system dan y Llywodraeth flaenorol nag Aelodau eraill, gan y bûm yn ffigwr blaenllaw ar gwangos am flynyddoedd lawer. Diolchaf i Phil Williams; yr wyf yn meddwl y bwriadodd wneud sylw hael amdanaf, ond torrodd Ron Davies ar draws a'i ddifetha, felly ni chafodd Phil lawer o gyfleo'r fod yn ganmoliaethus. Croesawaf y duedd ddiweddar. Fel cadeirydd cwango, trafodais y mater hwn gyda chadeiryddion cwangos eraill, a'r farn gyffredinol oedd fod arnom eisiau symud i'r cyfeiriad hwn. Yr oedd y trefniadau ar y pryd yn barhad o'r system flaenorol ac, o edrych yn ôl, ni wnaethom symud yn ddigon cyflym i ddangos ein barn. Mae'r system bresennol yn llawer iachach ac yn edrych yn llawer gwell. Rhannaf farn Alun Cairns y dylem ymestyn hyn i gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen. Nid wyf yn dweud hyn er mwyn amddiffyn fy hun, ond, hyd yn oed pan wneid penodiadau heb fawr o ymgynghori ymddangosiadol, fe wneid

ymdrehion i sicrhau bod gan bobl gysylltiad â'r gymuned leol.

I will make a personal point: for the period that I served as a quango chair and a member of the WDA and the WTB, I was always nominated by local government. People did not realise that, as the posts were not advertised. I think there were five or seven members of the Development Board for Rural Wales who had to be drawn from a list of local government nominees. I always insisted on being one of those nominees. I would not have accepted a position had I not been. My other point is that when I was appointed I had a reputation as being an independently minded councillor. It may seem strange to Members now when they hear the purity of my political views but I do not think that anyone would have realised that I was a supporter or member of a political party because I was committed to being a local independent councillor. I might have been, but that is a private matter. I thank Phil for his generous comments about me.

Gwnaf bwynt personol: am y cyfnod y gwasanaethais i fel cadeirydd cwango ac aelod o Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru, fe'm henwebwyd bob tro gan lywodraeth leol. Nid oedd pobl yn sylweddoli hynny, gan na châi'r swyddi eu hysbysebu. Yr wyf yn meddwl bod pump neu saith o aelodau Bwrdd Datblygu Cymru Wledig yr oedd yn rhaid tynnu eu henwau o restr o bobl a enwebwyd gan lywodraeth leol. Byddwn i bob amser yn mynnu cael bod yn un o'r rheini a enwebwyd. Ni fuaswn wedi derbyn swydd fel arall. Fy mhwyt arall yw bod gennyl enw, adeg fy mhenodi, am fod yn gynghorydd â barn annibynnol. Efllai y bydd hynny'n swnio'n rhyfedd i Aelodau'n awr pan glywant burdeb fy syniadau gwleidyddol ond nid wyf yn meddwl y buasai neb wedi sylweddoli fy mod yn gefnogwr nac yn aelod o blaid wleidyddol oherwydd yr oeddwn yn ymroddedig i fod yn gynghorydd lleol annibynnol. Efllai fy mod, ond mater preifat yw hynny. Diolchaf i Phil am ei sylwadau caredig amdanaf.

**The Minister for Open Government (Carwyn Jones):** I thank all Members for their contributions to this important debate.

Dechreuaaf â sylwadau Gareth ar y cod: bydd y fersiwn terfynol yn ddwyieithog. Bydd yr adroddiad terfynol yn cynnwys rhestr o'r cyrff cyhoeddus a ddaw o dan y cod hwn. Mae'n rhaid inni hefyd ystyried y sefyllfa o ran y seiri rhyddion. Gwyddom fod hynny'n dod o dan Reolau Sefydlog y Cynulliad. Soniodd Gareth hefyd am Estyn: corff o arolygwyr ydyw, nid corff cyhoeddus fel y cyfryw. Serch hynny, byddwn am sicrhau bod y rhestr o gyrrff cyhoeddus yn weddol gynhwysfawr.

Regarding David Melding's speech, the monitoring of Welsh speakers and other minority groups will take place within the mainstreaming agenda that we have adopted. Therefore, there will be additional monitoring.

Phil Williams raised important and detailed matters that will require further research. I invite him to write to me and the information

**Y Gweinidog dros Lywodraeth Agored (Carwyn Jones):** Diolchaf i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau i'r ddadl bwysig hon.

I will start with Gareth's comments on the code: the final version will be bilingual. The final report will include a list of the public bodies to which this code applies. We must also consider the situation as regards freemasons. We know that that is covered by the Assembly's Standing Orders. Gareth also mentioned Estyn: it is an inspectorate, not a public body as such. Nevertheless, we will want to ensure that the list of public bodies is reasonably comprehensive.

Ynglŷn ag anerchiad David Melding, bydd monitro siaradwyr Cymraeg a grwpiau lleiafrifol eraill yn digwydd o fewn yr agenda brif-ffrydio yr ydym wedi'i mabwysiadu. Felly, ceir monitro ychwanegol.

Cododd Phil Williams faterion pwysig a manwl a fydd yn galw am ymchwil bellach. Fe'i gwahoddaf i ysgrifennu ataf a darperir y

will be provided.

Many speakers made the point that there was a perception—often a correct one, as Peter Law said—which may still exist in Wales, that appointments to public bodies was a closed affair. We know that that was true in the 1980s. It was often said that the best way to secure a position of power as a Conservative in Wales in the 1980s was to lose an election. A significant quango job would then be offered to the losing candidate and a position of power would be secured.

**Alun Cairns:** Are you suggesting that Peter Law stood for the Conservative Party and that that is why he was appointed to all those quangos?

**Carwyn Jones:** Peter was one of the few individuals who was appointed on merit, as opposed to those who were appointed because of their talent for losing elections and antagonising the electorate. The situation has now changed, for which we must all be thankful. The suggestion was made that it was wonderful that the Nolan committee was established. It is true that the public appointments system is much fairer and more open than it was, but the Nolan committee was forced on the Conservative Government at the time, following scandals such as the cash-for-questions affair. Therefore, the Government put in place a system whereby appointments would be made more public. That is to be welcomed, but the reality is that it was not done of its own free will—it was forced on the Government.

The message must go out to the Welsh people that it is no longer a matter of who you know, but of how good you are. The new code attempts to put that into action. We must send out the message that we want a large number of applications from people with diverse talents, and from diverse backgrounds. We have not had that in the past in Wales. There is a large pool of talent that has been historically unable to offer public service to the people of Wales because of our previous appointments system.

4:00 p.m.

wybodaeth.

Gwnaeth sawl siaradwr y pwyt fod canfyddiad—un a oedd yn aml yn gywir, fel y dywedodd Peter Law—sydd efallai'n dal i fodoli yng Nghymru, fod penodiadau i gyrrf cyhoeddus yn fater caeëdig. Gwyddom fod hynny'n wir yn y 1980au. Dywedwyd yn aml mai'r ffordd orau i gael safle o rym fel Ceidwadwr yng Nghymru yn y 1980au oedd colli etholiad. Wedyn cynigid swydd o sylwedd ar gwango i'r ymgeisydd aflwyddiannus a byddai'n sicrhau safle o rym.

**Alun Cairns:** A ydych yn awgrymu y safodd Peter Law dros y Blaid Geidwadol ac mai dyna pam y'i penodwyd i'r holl gwangos hynny?

**Carwyn Jones:** Yr oedd Peter yn un o'r ychydig unigolion a benodwyd ar sail teilyngdod, mewn cyferbyniad â'r rheini a benodwyd oherwydd eu dawn o golli etholiadau a chodi gwrychyn yr etholwyr. Mae'r sefyllfa wedi newid erbyn hyn, a rhaid inni i gyd ddiolch am hynny. Gwnaethpwyd yr awgrym fod sefydlu pwylgor Nolan yn beth da. Mae'r system o wneud penodiadau cyhoeddus yn llawer tecach a mwy agored nag y bu, ond gorfodwyd pwylgor Nolan ar y Llywodraeth Geidwadol ar y pryd, yn dilyn sgandalau fel helynt cynnig tâl am ofyn cwestiynau. Felly, sefydlodd y Ceidwadwyr system a fyddai'n gwneud penodiadau'n fwy cyhoeddus. Mae hynny i'w groesawu, ond y gwir yw nad o'i hewyllys ei hun y gwnaeth hynny—fe'i gorfodwyd ar y Llywodraeth.

Rhaid anfon y neges allan i bobl Cymru nad mater o bwy yr ydych yn ei adnabod ydyw mwyach, ond pa mor dda yr ydych. Mae'r cod newydd yn ymgais i roi hynny ar waith. Rhaid inni anfon y neges allan fod arnom eisiau nifer fawr o geisiadau gan bobl â doniau amrywiol, ac o gefndiroedd amrywiol. Ni chawsom hynny yn y gorffennol yng Nghymru. Mae cronfa fawr o dalent sydd yn hanesyddol wedi methu cynnig gwasanaeth cyhoeddus i bobl Cymru oherwydd ein system benodiadau flaenorol.

There is an important difference between task and finish groups and Assembly sponsored public bodies. The latter are standing bodies that do not terminate after a specific date, whereas task and finish groups are set up to consider specific situations. For example, a task and finish group was established to produce and advise on the document 'Farming for the Future'. Its members gave of their time for free. The whole point of that group was to bring together representatives of as many sectors in the agri-food chain as possible in order to achieve as wide a consensus as possible. That goal was achieved, which is the purpose of a task and finish group.

Much has been made of the fact that this is an open system of Government. There is no doubt in my mind that, in the whole of western Europe, there are few other administrations that can claim to be as open as the Assembly. Alun Cairns made a fair point that while there is a welcome gender balance in the Cabinet and an almost perfect one in terms of Assembly Members, work remains to be done to ensure a gender balance in other areas. However, if the system of government here were not open, Alun Cairns would not have known that. The fact that he is able to acquire that information, as he is perfectly entitled to, illustrates that the system of government in Wales is as open as it can be at present. Of course, it is not so open that it could not be improved upon.

**Alun Cairns:** I am grateful to the Minister for his helpful comments. I was sorry that it took more than four months to get that information from the First Minister, but that is another issue. I got an answer in the end, for which I am grateful.

Task and finish groups have a major influence on Government policy, their meetings are closed, the agenda is not made available to the public and the minutes are not published for scrutiny. Do you agree that it is the administration's responsibility to bring any recommendations that influence policy before Assembly Subject Committees so that Members can provide input before

Mae gwahaniaeth pwysig rhwng grwpiau gorchwyl a gorffen a chyrrf cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Mae'r olaf yn gyrrf sefydlog na ddeuant i ben wedi dyddiad penodol, tra caiff grwpiau gorchwyl a gorffen eu sefydlu i ystyried sefyllfaoedd penodol. Er enghraifft, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i lunio a chynggori ar y ddogfen 'Ffermio ar gyfer y Dyfodol'. Rhoddodd ei aelodau eu hamser yn rhad ac am ddim. Holl bwynt y grŵp hwnnw oedd dod ynghyd â chynrychiolwyr cymaint o sectorau yn y gadwyn fwyd-amaeth â phosibl er mwyn sicrhau consensws mor eang â phosibl. Cyflawnwyd y nod hwnnw, a dyna ddiben grŵp gorchwyl a gorffen.

Gwnaed llawer o'r ffaith bod hon yn system Lywodraeth agored. Nid oes amheuaeth yn fy meddwl i nad prin, yn y cyfan o orllewin Ewrop, yw'r gweinyddiaethau eraill a all honni bod mor agored â'r Cynulliad. Gwnaeth Alun Cairns bwynt teg, er bod cydbwysedd sydd i'w groesawu rhwng y ddau ryw yn y Cabinet a chydbwysedd sydd bron yn berffaith o ran Aelodau'r Cynulliad, mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn meysydd eraill. Fodd bynnag, pe na bai'r system lywodraeth yma'n agored, ni fuasai Alun Cairns wedi gwybod hynny. Mae'r ffaith ei fod yn gallu cael y wybodaeth honno, fel y mae ganddo berffaith hawl i'w chael, yn dangos bod y system lywodraeth yng Nghymru mor agored ag y gall fod ar hyn o bryd. Wrth gwrs, nid yw mor agored fel na ellid gwella arni.

**Alun Cairns:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei sylwadau buddiol. Yr oedd yn flin gennyf imi orfod aros dros bedwar mis i gael y wybodaeth honno gan y Prif Weinidog, ond mater arall yw hynny. Cefais ateb yn y diweddf, ac yr wyf yn ddiolchgar am hynny.

Caiff grwpiau gorchwyl a gorffen ddylanwad mawr ar bolisi'r Llywodraeth, mae eu cyfarfodydd yn gaeedig, nid yw'r agenda ar gael i'r cyhoedd ac ni chyhoeddir y cofnodiion i'w harchwilio. A gytunwch mai cyfrifoldeb y weinyddiaeth yw dod ag unrhyw argymhellion sy'n dylanwadu ar bolisi gerbron Pwyllgorau Pwnc y Cynulliad fel y gall Aelodau roi mewnbwn cyn y

they are implemented?

**Carwyn Jones:** Yes, where possible. However, there may be cases when that is not possible. The purpose of a task and finish group is to advise the Minister, who is responsible to the Subject Committee and the Assembly. For example, on the farming for the future group, the draft report was twice brought before the Committee on Agriculture and Rural Development for its input and observations. It was then published. There is scrutiny in that regard.

**Alun Cairns:** Therefore, do you condemn the instances where task and finish group reports have been implemented before the Subject Committees have had any input into them?

**Carwyn Jones:** You heard what I said. Where possible, draft reports should be presented to Subject Committees. There are occasions when, for good reason, that may not be possible. Without being given specific examples and their backgrounds, it is difficult for me to comment. I can only comment on what I know of through my work on my previous portfolio.

Task and finish groups fulfil an important role of involving people in the democracy of Wales today. In the past, there were no such task and finish groups. Government bodies have never had the same breadth of advice or level of involvement. That is not a party political point. I emphasise to the people of Wales that this is an open place of government and an open administration, where people's views are treasured, valued and have weight.

gweithredir arnynt?

**Carwyn Jones:** Cytunaf, lle bo modd. Fodd bynnag, gall fod achosion pan nad yw hynny'n bosibl. Pwrpas grŵp gorchwyl a gorffen yw cyngori'r Gweinidog, sy'n gyfrifol i'r Pwyllgor Pwnc a'r Cynulliad. Er enghraift, ar y grŵp ffermio ar gyfer y dyfodol, daethpwyd â'r adroddiad drafst gerbron y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ddwywaith ar gyfer mewnbwn a sylwadau. Fe'i cyhoeddwyd yn dilyn hynny. Mae cyfle i archwilio yn yr ystyr hwnnw.

**Alun Cairns:** Felly, a ydych yn condemnio'r achosion lle gweithredwyd ar adroddiadau grwpiau gorchwyl a gorffen cyn i'r Pwyllgorau Pwnc gael unrhyw fewnbwn iddynt?

**Carwyn Jones:** Clywsoch beth a ddywedais. Lle bo modd, dylid cyflwyno adroddiadau drafst i Bwyllgorau Pwnc. Y mae achlysuron pryd na fydd hynny efallai yn bosibl, am reswm da. Heb gael engrifftiau penodol a'r cefndir iddynt, mae'n anodd i mi roi sylw. Ni allaf ond rhoi sylwadau ar yr hyn a wn i drwy fy ngwaith ar fy mhortffolio blaenorol.

Mae grwpiau gorchwyl a gorffen yn cyflawni rôl bwysig o gynnwys pobl yn nemocratioeth Cymru heddiw. Yn y gorffennol, nid oedd grwpiau gorchwyl a gorffen o'r fath yn bod. Nid yw cyrff Llywodraeth erioed wedi cael yr un ehangder cyngor na'r un lefel o gyfranogiad. Nid pwyt gwleidyddol bleidiol yw hynny. Pwysleisiaf i bobl Cymru mai man lle ceir llywodraeth agored a gweinyddiaeth agored yw hwn, lle mae barn pobl yn cael ei thrysori, ei gwerthfawrogi a'i chyfrif yn bwysig.

*Gwelliant 1: O blaid 22, Ymatal 0, Yn erbyn 25.  
Amendment 1: For 22, Abstain 0, Against 25.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Bourne, Nick  
Cairns, Alun  
Dafis, Cynog  
Davies, Geraint  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Graham, William

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Davidson, Jane

Hancock, Brian	Davies, Andrew
Jarman, Pauline	Davies, Ron
Jones, Elin	Edwards, Richard
Jones, Gareth	German, Michael
Jones, Helen Mary	Gibbons, Brian
Jones, Ieuan Wyn	Gregory, Janice
Lloyd, David	Griffiths, John
Melding, David	Gwyther, Christine
Morgan, Jonathan	Hart, Edwina
Rogers, Peter	Jones, Ann
Ryder, Janet	Jones, Carwyn
Thomas, Rhodri Glyn	Law, Peter
Thomas, Owen John	Lloyd, Val
Wigley, Dafydd	Middlehurst, Tom
Williams, Phil	Morgan, Rhodri
	Pugh, Alun
	Thomas, Gwenda
	Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
Amendment defeated.*

*Gwelliant 2: O blaid 47, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Amendment 2: For 47, Abstain 0, Against 0 .*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cynog, Dafis
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Glyn
Davies, Geraint
Davies, Ron
Davies, Janet
Edwards, Richard
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
German, Michael
Gibbons, Brian
Gwyther, Christine
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Helen Mary
Lloyd, David
Lloyd, Val
Law, Peter
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri

Pugh, Alun  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Kirsty  
Williams, Phil

*Derbynwyd y gwelliant.  
Amendment carried.*

Amended motion:

*the National Assembly*

*1. approves the revised 'Code of Practice for Ministerial Appointments to Public Bodies' which was e-mailed to Members on 18 June 2002.*

*2. endorses the proposed issuing of the code by the First Minister in September 2002.*

*3. recognises the need to recruit people from all sections of society to serve on public bodies.*

Cynnig wedi'i ddiwygio:

*y Cynulliad Cenedlaethol*

*1. yn cymeradwyo'r fersiwn ddiwygiedig o'r 'Cod Ymarfer ar Benodiadau'r Gweinidogion i Gyrff Cyhoeddus' a anfonwyd drwy'r e-bost at yr Aelodau ar 18 Mehefin 2002.*

*2. yn cymeradwyo bwriad Prif Weinidog Cymru i gyhoeddi'r cod ym mis Medi 2002.*

*3. yn cydnabod yr angen i recriwtio pobl o bob rhan o gymdeithas i wasanaethu ar gyrrf cyhoeddus.*

*Cynnig wedi'i ddiwygio: O blaid 47, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*

*Amended motion: For 47, Abstain 0, Against 0 .*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Cairns, Alun  
Chapman, Christine  
Cynog, Dafis  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Glyn  
Davies, Geraint  
Davies, Ron  
Davies, Janet  
Edwards, Richard  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Gwyther, Christine  
Hancock, Brian  
Hart, Edwina  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann

Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Ieuan Wyn  
Jones, Helen Mary  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Law, Peter  
Melding, David  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Jonathan  
Morgan, Rhodri  
Pugh, Alun  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Kirsty  
Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.  
Amended motion carried.*

**Dadl Plaid Leiafrifol (Y Blaid Geidwadol)  
Minority Party Debate (Conservative Party)**

**Dirywiad Economaidd yng Nghefn Gwlad Cymru  
Economic Decline in Rural Wales**

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Carwyn Jones and amendments 2 and 3 in the name of Jocelyn Davies.

**Peter Rogers:** I propose that:

*the National Assembly for Wales condemns the failure of the Government to improve the economic wellbeing of rural Wales, and calls on the Government to bring forward policies to reverse the decline. (NDM1091)*

I take great pleasure in proposing this motion today. It follows on from my short debate last Thursday on closing care homes, particularly in rural areas, and the loss of jobs and other serious consequences that that entails.

Last Friday, I received a call from a distressed schoolteacher who has 20 years of experience and who is worried that her job is hanging in the balance because of falling school rolls. In north Wales, nearly 50 jobs will be lost by the summer holidays. The schoolteacher said that she was desperately

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Carwyn Jones a gwelliannau 2 a 3 yn enw Jocelyn Davies.

**Peter Rogers:** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn condemnio methiant y Llywodraeth i wella'r sefyllfa economaidd yng nghefn gwlad Cymru, ac yn galw ar y Llywodraeth i gyflwyno polisiau i wrth-droi'r dirywiad economaidd. (NDM1091)*

Pleser mawr i mi yw cyflwyno'r cynnig hwn heddiw. Mae'n dilyn oddi ar fy nadol fer ddydd Iau diwethaf ar gau cartrefi gofal, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a'r colli swyddi a'r canlyniadau difrifol eraill a ddaw yn sgil hynny.

Ddydd Gwener diwethaf, cefais alwad ffôn gan athrawes bryderus a chanddi 20 mlynedd o brofiad sydd yn poeni fod ei swydd yn y fantol oherwydd cwmp yn niferoedd disgyblion ysgol. Yn y Gogledd, collir bron 50 o swyddi erbyn gwyliau'r haf. Dywedodd yr athrawes ei bod yn poeni'n arw am ei

worried about her job and felt vulnerable because she teaches children at key stage 2. After 20 years in the profession, the saving for school governors for not paying her salary would do wonders for her school's budget. She told me that the school's intake in September would drop further, by 24 pupils. She has two children who are hoping to go to university, one this year and the other in two years' time. She explained the desperate situation she would find herself in were she to lose her job at such an important stage of her children's lives and education. I contacted a director of education in north Wales who told me that this year's job losses in rural schools could be just the tip of the iceberg. 'Education, education, education': whose words were those?

Do you know what fewer teachers in rural schools would mean? It would mean bigger classes and a deterioration in teaching standards. The fact that there are now fewer children living in rural areas has nothing to do with the birds and the bees, but has to do with the fact that there are no jobs, no future and that therefore there is outward migration of young people. Let us welcome Scottish Power's decision to close its electrical shops; it will support post offices as people will have to pay their bills and buy electricity tokens there. Let us see commitment from the Assembly in support of rural areas. Let us remember the new countryside adage: 'if you want to get on, get out'. Let us also remember that the most important industry in rural Wales is agriculture. All of rural Wales is under threat unless we recognise that a successful agricultural industry is essential to a vibrant countryside. Let us not forget the stark figure of 60,000 job losses since 1998.

We need food as sure as night follows day. UK farmers must compete for supermarket orders with overseas produce, which is produced under fewer constraints as regards animal welfare, hygiene, environmental regulations and traceability. Rather than talk about free trade, the Government must fight for fair trade to ensure that farmers are given a fair deal. We must not enforce European rules faster than Germany, Italy, Ireland or France do. Let us do what they do and let

swydd a'i bod yn teimlo'n fregus am ei bod yn dysgu plant yng nghyfnod allweddol 2. Wedi 20 mlynedd yn y proffesiwn, byddai'r arbediad i lywodraethwyr yr ysgol o beidio â thalu ei chyflog o fudd mawr i gyllideb ei hysgol. Dywedodd wrthyf y byddai'r nifer a ddeuai i mewn i'r ysgol ym Medi yn cwympo ymhellach, cwmp o 24 disgybl. Mae hi'n fam i ddau o blant sy'n gobeithio mynd i'r brifysgol, un eleni a'r llall ymhen dwy flynedd. Eglurodd y sefyllfa enbyd y cai ei hun ynnddi pe collai ei swydd ar adeg mor bwysig ym mywydau ac addysg ei phlant. Cysylltais â chyfarwyddwr addysg yn y Gogledd a ddywedodd wrthyf mai'r dechrau yn unig yw'r colledion swyddi eleni mewn ysgolion gwledig. 'Education, education, education': geiriau pwy oedd y rheini?

A wyddoch chi beth y byddai llai o athrawon mewn ysgolion gwledig yn ei olygu? Byddai'n golygu dosbarthiadau mwy a dirywiad mewn safonau dysgu. Nid oes gan y ffaith bod llai o blant bellach yn byw mewn ardaloedd gwledig ddim i'w wneud ag atgenhedlu, ond mae i wneud â'r ffaith nad oes dim swyddi, dim dyfodol a bod pobl ifanc felly'n symud i ffwrdd. Gadewch inni groesawu penderfyniad Scottish Power i gau ei siopau trydanol; bydd yn cefnogi swyddfeydd post gan y bydd raid i bobl dalu eu biliau a phrynu tocynnau trydan yn y fan honno. Gadewch inni weld ymrwymiad gan y Cynulliad i gefnogi ardaloedd gwledig. Cofiw ddywediat newydd cefn gwlad: 'os ydych am ddod ymlaen, gadewch'. Cofiw hefyd mai'r diwydiant pwysicaf yn y Gymru wledig yw amaethyddiaeth. Mae'r cyfan o'r Gymru wledig dan fygythiad os na wnawn gydnabod bod diwydiant amaethyddol llwyddiannus yn hanfodol i gefn gwlad byw. Nac anghofiwn y ffigur moel o 60,000 o swyddi a gollwyd ers 1998.

Mae angen bwyd arnom, cyn sicred â bod nos yn dilyn dydd. Rhaid i ffermwyr y DU gystadlu am archebion archfarchnadodd â chynnyrch tramor, a gynhyrchir dan lai o reolau o ran lles anifeiliaid, hylendid, rheoliadau amgylcheddol a'r gallu i olrhain. Yn hytrach na siarad am fasnach rydd, rhaid i'r Llywodraeth ymladd dros fasnach deg i sicrhau y caiff ffermwyr fargen deg. Rhaid inni beidio â gorfodi rheolau Ewropeidd yn gyflymach nag y gwna'r Almaen, yr Eidal,

some of these rules and regulations gather dust on the shelf. Why do we have to keep on regulating? Since 1997, more than 15,000 regulations on agriculture have been introduced. That is 3,000 per year, 250 per month and 58 per week. The command and control mentality that originates with the common agricultural policy and finds its expression in the mountain of Department for Environment, Food and Rural Affairs directives and decrees does untold damage to the industry.

4:10 p.m.

**Ron Davies:** You make a powerful argument about the regulations that emanate from the European Union. However, the period to which you refer was cursed by a series of incidents, not least the problems of BSE. Do you accept that during that period many of the directives to which you referred were necessary to deal with the impact of BSE on human and animal health?

**Peter Rogers:** I agree that foot and mouth disease and other diseases must be controlled. However, we must remember that we are going back to 1997. I gave a perfect example in Plenary today about what will be done to poultry farmers across the country without a thought of the consequences. You, Ron, will understand that by annihilating the poultry industry by this one foul swoop this country will be left with an extra 2 million tonnes of grain or more, which are currently consumed by that industry.

**Ron Davies:** Do you accept that the Government that you supported throughout the 1970s and 1980s was determined to follow the path of deregulation, and that that failed to protect the public sector and led to a succession of diseases, such as BSE? Is it not the case that those chickens have come home to roost?

**Peter Rogers:** If we consider BSE, we can see how much it has cost us and the ongoing damage to the industry caused by some commentators and the rules. The latest rule, on removing spinal cords from lambs, was imposed by France last week. We must draw a line under this and question our understanding of BSE.

Iwerddon a Ffrainc. Gwnawn yr un fath â hwy a gadael i rai o'r rheolau hyn hel llwch ar y silff. Pam mae'n rhaid inni reoleiddio o hyd? Ers 1998, cyflwynwyd mwy na 15,000 o reoliadau ar amaethyddiaeth. Dyna 3,000 y flwyddyn, 250 y mis a 58 yr wythnos. Mae'r meddylfryd gorchymyn a rheoli sydd â'i wreiddiau yn y polisi amaethyddol cyffredin ac y gwelir ei fynegiant yn y mynydd o gyfarwyddebau a gorchymynion gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn gwneud niwed difesur i'r diwydiant.

**Ron Davies:** Gwnewch ddadl rymus ynglŷn â'r rheoliadau sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, melltithiwyd y cyfnod yr ydych yn cyfeirio ato gan gyfres o ddigwyddiadau, nid yn lleiaf broblemau BSE. A ydych yn derbyn bod llawer o'r cyfarwyddebau y cyfeiriasoch atynt yn angenrheidiol yn y cyfnod hwnnw i ddelio ag effaith BSE ar iechyd dynol ac anifeiliaid?

**Peter Rogers:** Cytunaf fod yn rhaid rheoli clwy'r traed a'r genau a chlefydau eraill. Fodd bynnag, rhaid cofio ein bod yn mynd yn ôl i 1997. Rhoddais enghraifft berffaith yn y Cyfarfod Llawn heddiw o'r hyn a wneir i ffermwyr dofedor ledled y wlad heb feddwl am y canlyniadau. Byddwch chi, Ron, yn deall y bydd diddymu'r diwydiant dofedor mewn un ergyd greulon yn gadael y wlad hon gyda 2 filiwn tunnell ychwanegol neu fwy o rawn, a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y diwydiant hwnnw.

**Ron Davies:** A dderbyniwch fod y Llywodraeth yr oeddech chi'n ei chefnogi drwy gydol y 1970au a'r 1980au yn benderfynol o ddilyn llwybr dadreoleiddio, a bod hynny wedi methu â gwarchod y sector cyhoeddus gan arwain at gyfres o glefydau fel BSE? Onid yw'n wir fod y cywion hynny wedi dod adref i glwydo?

**Peter Rogers:** Os ystyriwn BSE, gallwn weld faint y mae wedi ei gostio i ni a'r niwed parhaus i'r diwydiant a achoswyd gan rai sylwebwyr a'r rheolau. Gosodwyd y rheol ddiweddaraf, ynglŷn â thynnu'r madruddyn o wlyn, gan Ffrainc yr wythnos diwethaf. Rhaid inni dynnu llinell dan hyn a chwestiynu ein dealltwriaeth o BSE.

**Rhodri Glyn Thomas:** Do you agree that, if regulations had been in place to safeguard animal feed when BSE was introduced into this country, we could have avoided that whole episode?

**Peter Rogers:** We have just had a disaster with the foot and mouth disease outbreak. We have not taken any precautions since then for the future. We should be considering how to save the countryside's economy and introduce plans to get a viable farming industry going again.

The industry requires a period of calm and consistency after years of falling incomes. Latest figures show that incomes have declined by about 77 per cent. We must ensure that we can control an outbreak of any of these virulent diseases that cause so much trouble. We must save the family farm. We must not have more upheaval and change. Mike German, who is the third Minister responsible for agriculture in as many years—and a Liberal Democrat—is not in any position to offer expertise or experience. Foot and mouth disease wreaked havoc across the country and brought misery and desperation to businesses, many of which were unconnected with agriculture. The bungling incompetence of the former Minister for Rural Affairs, Carwyn Jones, was mainly responsible for that. My area saw the greatest overkill of animals per confirmed foot and mouth disease case in the modern world. I could bring tears to your eyes with accounts of the misery for which the Minister was responsible. Now this same Minister has the audacity to table motions congratulating himself. Does he not know shame?

Europe's response to the foot and mouth disease outbreak was spot on. An immediate movement ban was enforced. Had the Government acted in the same way, north Wales would have escaped the disease. We are now subject to a 20-day movement ban—an illogical regulation that is destroying the industry. Should foot and mouth disease strike again, the new 20-day rule would play no part in preventing the virus from reaching north Wales in exactly the same way as it did

**Rhodri Glyn Thomas:** A gytunwch, pe buasai rheoliadau yn eu lle i ddiogelu porthiant anifeiliaid pan gyflwynwyd BSE i'r wlad hon, y gallasem fod wedi osgoi'r holl beth?

**Peter Rogers:** Yr ydym newydd gael trychineb gyda chlwy'r traed a'r genau. Nid ydym wedi cymryd unrhyw ragofalon ers hynny ar gyfer y dyfodol. Dylem fod yn ystyried sut i achub economi cefn gwlad a chyflwyno cynlluniau i roi diwydiant ffermio hyfyw ar ei draed eto.

Mae ar y diwydiant angen cyfnod o lonydd a chysondeb ar ôl blynyddoedd o gwympr mewn incwm. Dengys y ffigurau diweddaraf ostyngiad o ryw 77 y cant yn incwm ffermwyr. Rhaid inni sicrhau y gallwn reoli unrhyw un o'r clefydau heintus hyn sy'n achosi cymaint o helynt. Rhaid inni achub y fferm deuluol. Rhaid inni beidio â chael mwy o chwalfa a newid. Nid yw Mike German, y trydydd Gweinidog cyfrifol am amaethyddiaeth mewn cynifer o flynyddoedd—a Democrat Rhyddfrydol—mewn unrhyw sefyllfa i gynnig arbenigedd na phrofiad. Creodd clwy'r traed a'r genau lanastr ar draws y wlad gan beri digalondid ac anobaith i fusnesau, llawer ohonynt heb gysylltiad ag amaethyddiaeth. Anallu bwngleraidd y cyn Weinidog dros Faterion Gwledig, Carwyn Jones, oedd yn bennaf gyfrifol am hynny. Yn fy ardal i gwelwyd y gorladdfa mwyaf o anifeiliaid yn y byd modern am bob achos o glwy'r traed a'r genau a gadarnhawyd. Gallwn dynnu dagrau i'ch llygaid gyda hanesion am y tralod yr oedd y Gweinidog yn gyfrifol amdano. Yn awr mae gan yr un Gweinidog hwn yr hyfdra i gyflwyno cynigion yn ei longyfarch ei hun. Onid oes ganddo gywilydd?

Yr oedd ymateb Ewrop i haint clwy'r traed a'r genau yn llygad ei le. Gorfodwyd gwaharddiad ar symud anifeiliaid yn ddi-oed. Pe bai'r Llywodraeth wedi gweithredu yn yr un modd, buasai gogledd Cymru wedi osgoi'r clwy. Yn awr mae gwaharddiad symud 20 diwrnod arnom—rheoliad afresymegol sy'n dinistrio'r diwydiant. Pe bai clwy'r traed a'r genau yn taro eto, ni fyddai'r rheol 20 diwrnod newydd yn gwneud dim i atal y feirws rhag cyrraedd gogledd Cymru yn yr un

last year. Yet, a 20-day rule is in place, which is stifling the industry and the livestock auctions in particular, and is again giving the supermarkets a mandate to control prices. We need to challenge the 20-day rule in order to prevent the disease from entering the country again and to prevent further damage to the economy; not only are auctions discriminated against, but the whole industry is suffering.

**Cynog Dafis rose—**

**Peter Rogers:** I will not give way, Cynog.

What we need and what the industry has been screaming for over the last six or seven years, following the devastation of swine fever and now foot and mouth disease, is controls at ports and docks such as those enforced by every other food producing country to protect their industry. Containers need to be well marked and we need signs for travellers to deposit meat products. We need sniffer dogs, and publicity to make people aware of how illegally imported meat can damage our industry.

There has been enough idle talk in the Assembly about training sniffer dogs and people to provide protection. We are over three years into devolution and there is still no sign of protection for the industry. We have damaged the auction system, which is a vital marketing tool; these companies must not be victimised. Their vital role must be appreciated and supported. They must not be the scapegoat for a Government that got it wrong.

Young farmers have a special place in this Government's plans, or so I thought. Why is there no sheep quota available for new entrants and why are there rules and bureaucracy that prevent applications for suckler cow quota? What have we done for new entrants? Training in agriculture for young people is almost non-existent.

Why do we not take a lead from the French Government? It has taken the bull by the horns and has awarded generous, non-

modd yn union ag y gwnaeth y llynedd. Er hynny, mae rheol 20 diwrnod wedi'i gosod, sy'n tagu'r diwydiant a'r ocsynau da byw yn enwedig, ac sydd eto yn rhoi mandad i'r archfarchnadoedd reoli prisiau. Mae angen inni herio'r rheol 20 diwrnod er mwyn atal y clwy rhag dod i mewn i'r wlad eto ac i atal niwed pellach i'r economi; nid yn unig y gwahaniaethir yn erbyn ocsynau, ond mae'r diwydiant cyfan yn dioddef.

**Cynog Dafis a gododd—**

**Peter Rogers:** Nid wyf am ildio, Cynog.

Yr hyn sydd arnom ei angen, a'r hyn y bu'r diwydiant yn sgrechian amdanu dros y chwech neu saith blynedd diwethaf, yn dilyn dinistr clefyd y moch ac yn awr clwy'r traed a'r genau, yw mesurau rheoli mewn porthladdoedd a dociau fel y rheini a weithredir gan bob gwlaid arall sy'n cynhyrchu bwyd er mwyn gwarchod eu diwydiant. Mae angen i gynwysyddion fod wedi'u marcio'n glir ac mae angen arwyddion i drafaelwyr waredu cynhyrchion cig. Mae angen cŵn synhwyro, a chyhoeddusrwydd i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o sut y gall cig a fewnforir yn anghyreithlon niweidio ein diwydiant.

Bu digon o siarad gwag yn y Cynulliad am hyfforddi cŵn synhwyro a phobl i ddarparu gwarchodaeth. Yr ydym dros dair blynedd i mewn i ddatganoli ac nid oes byth unrhyw arwydd o warchodaeth i'r diwydiant. Yr ydym wedi niweidio'r system ocsiwn, sy'n arf marchnata allweddol; rhaid peiddio ag erlid y cwmnïau hyn. Rhaid gwerthfawrogi a chefnogi eu rôl hanfodol. Rhaid iddynt beidio â bod yn fwch dihangol i Lywodraeth a gymerodd gam gwag.

